Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Rhagfyr 2019




www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Rhagfyr 2019

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Rhun ap Iorwerth AC**
Plaid Cymru



**Alun Davies AC**
Llafur Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AC**
Plaid Brexit

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd ........ 5**

**Casgliadau ........ 6**

**1. Y cefndir deddfwriaethol ........ 9**

**2. Y cefndir ........ 13**

**3. Codi ffioedd ........ 18**

**4. Gwaith cytundeb ........ 34**

**5. Trefniadau cworwm ........ 40**

**6. Adroddiadau Interim ........ 48**

**7. Gosod adroddiadau a chyfrifon ........ 53**

**8. Terfynau amser o ran ardystio ........ 56**

**9. Materion sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 61**

**10. Materion o ran deddfwriaeth archwilio ehangach yng Nghymru ........ 74**

**11. Materion anstatudol ........ 88**

**Atodiad ........ 93**

# Rhagair y Cadeirydd

Cytunodd y Pwyllgor Cyllid i wneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn dilyn galwadau niferus gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r cyn-Archwilydd i ystyried diwygio rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf.

Roeddem yn teimlo ei bod yn amser priodol i adolygu'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn gweithredu, bum mlynedd ar ôl ei deddfu. Yn wir, o ystyried rôl y Pwyllgor ei hun wrth oruchwylio agweddau ar y ddeddfwriaeth, gwnaethom groesawu'r cyfle i feddwl am y darpariaethau a osodwyd ar y Cynulliad.

Yn ogystal â thargedu SAC ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, roeddem yn awyddus i ymgysylltu â swyddfeydd archwilio ledled y DU, Llywodraeth Cymru, cyrff archwilio proffesiynol a sefydliadau a archwilir gan SAC. Er i ni glywed bod nifer o agweddau ar y ddeddfwriaeth yn gweithio'n effeithiol, cawsom ein hargyhoeddi gan y dystiolaeth a ddaeth i law fod rhai darpariaethau yn rhy gymhleth, yn gostus i'w gweinyddu neu'n anghymesur.

Rydym wedi dod i'r casgliad bod angen diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn gwella effeithlonrwydd y swyddogaethau a gyflawnir gan SAC a'r Cynulliad. Byddwn nawr yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer newidiadau deddfwriaethol, a nodir ym Mil drafft y Pwyllgor sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Ein bwriad yw, pe bai'r dystiolaeth a gawn mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cefnogi'r newidiadau deddfwriaethol, y bydd y Pwyllgor yn ystyried cyflwyno Bil Pwyllgor yn y Cynulliad hwn.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i lunio ein gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r arbenigedd a'r cyngor amhrisiadwy a gawsom wedi ein helpu i ddatblygu'r Bil drafft ac rydym nawr yn gwahodd sylwadau pellach ar ein cynigion deddfwriaethol drafft.

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

# Casgliadau

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi diwygiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a bydd yn ymgynghori ar Fil Drafft (gweler yr atodiad), gyda'r nod o'i gyflwyno yn ystod y Cynulliad hwn. ........ Tudalen 17

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan y dystiolaeth sy'n cefnogi diwygio'r darpariaethau codi ffioedd presennol ac mae'n cynnig diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn: ........ Tudalen 32

**Casgliad 3.** Er ei fod yn cefnogi darpariaethau ffioedd mwy hyblyg, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen am dryloywder a byddai'n disgwyl i Swyddfa Archwilio Cymru ddiffinio paramedrau trefn codi ffioedd mwy hyblyg ar gyfer cyrff a archwilir a'r Pwyllgor, fel rhan o'i gynllun ffioedd blynyddol. ........ Tudalen 32

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn credu  y dylid cadw'r gofyniad i ffioedd gael eu talu gan y corff y mae'r swyddogaeth yn ymwneud ag ef er mwyn sicrhau tryloywder i gyrff a archwilir, ymgysylltiad effeithiol yn yr archwiliad ac i gynnal y berthynas rhwng yr archwilydd a'r corff a archwilir. ........ Tudalen 32

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynnig Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i osod ei delerau a'i amodau ei hun ar gyfer gwaith cytundeb ac ennill ffioedd ychwanegol o fewn rheswm i'w hail-fuddsoddi yn y sefydliad neu eu rhoi i Gronfa Gyfunol Cymru, cyhyd â bod mesurau diogelwch digonol ar waith i amddiffyn eu gwaith statudol ac atal gwrthdaro buddiannau. ........ Tudalen 38

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cynnig diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i ddileu'r cysylltiad rhwng gwaith cytundeb a'r cynllun ffioedd i ganiatáu i Swyddfa Archwilio Cymru bennu ei thelerau a'i hamodau ei hun. ........ Tudalen 38

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylid cadw'r gofyniad presennol mewn deddfwriaeth, sef na fydd cworwm mewn cyfarfod oni bai bod mwyafrif o aelodau anweithredol, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth annibynnol a darparu her adeiladol i'r cyfarwyddwyr gweithredol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid diwygio paragraff 28(3) o Atodlen 1 i Ddeddf

Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i ganiatáu i aelodau gweithredol aros yn y cyfarfod ond i beidio â phleidleisio os na fydd mwyafrif o aelodau anweithredol yn bresennol. ........ Tudalen 46

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn awgrymu bod y gofyniad ym mharagraff 3(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i lunio adroddiad interim o leiaf unwaith y flwyddyn, yn cael ei newid i ddarparu gofyniad i lunio adroddiad interim (fel y'i diffinnir ar hyn o bryd) os bydd y Cynulliad yn gwneud cais am hynny. ........ Tudalen 51

**Casgliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylid symleiddio'r darpariaethau yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 mewn perthynas â gosod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon i ........ Tudalen 55

**Casgliad 10.** O ran y deddfiadau presennol sy'n nodi terfyn amser o bedwar mis i Archwilydd Cyffredinol Cymru ardystio a gosod copi o gyfrifon ac adroddiad corff a archwilir, mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid eu diwygio fel a ganlyn: ........ Tudalen 59

**Casgliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn cynnig diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i ganiatáu i Swyddfa Archwilio Cymru benodi ei harchwilwyr allanol, ar yr amod bod y Cynulliad yn cymeradwyo: ........ Tudalen 63

**Casgliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn cynnig diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn bosibl ymestyn penodiad aelod anweithredol sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd am ail dymor o hyd at bedair blynedd ........ Tudalen 67

**Casgliad 13.** O ran y gofynion i ymgynghori â'r Prif Weinidog o ran penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, y trefniadau o ran tâl y Cadeirydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, a dod â phenodiad y Cadeirydd i ben, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylid dileu'r gofynion hyn ar y Cynulliad, a hynny er mwyn amddiffyn annibyniaeth y rolau hynny. ........ Tudalen 71

**Casgliad 14.** Gan na chaiff penodiadau anweithredol i Fwrdd SAC eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylid dileu'r gofyniad i ymgynghori "â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus" ynglŷn â threfniadau talu cydnabyddiaeth a thelerau eraill o ran penodi aelodau anweithredol SAC a'r Cadeirydd a chyflwyno

darpariaeth yn lle hynny sy'n caniatáu i'r Cynulliad ymgynghori ag unrhyw bersonau sy’n briodol yn ei farn. ............ Tudalen 71

**Casgliad 15.** Mae’r Pwyllgor yn awgrymu y dylid diwygio adran 5(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013 i’w gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi rhestr o swyddi neu drefniadau cyfyngedig y byddai angen i gyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â'r Cynulliad yn eu cylch cyn eu derbyn neu ymrwymo iddynt ar ôl gadael y swydd, ond dim ond os bydd unrhyw gyfyngiadau o’r fath wedi’u nodi. ............ Tudalen 71

**Casgliad 16.** Nid yw'r Pwyllgor yn bwriadu bwrw ymlaen â chynigion sy'n ymwneud â deddfwriaeth archwilio cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn y Bil Drafft hwn, gan fod hwn yn ddarn sylweddol o waith, ond mae’n barod i gael rhagor o dystiolaeth ar y materion hyn fel rhan o'i ymgynghoriad ar y Bil Drafft. ............ Tudalen 86

# 1. Y cefndir deddfwriaethol

## Deddfwriaeth sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

### Deddf Llywodraeth Cymru 2006

**1.** Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Deddf 1998) Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd). O dan Ddeddf 1998, daeth yr Archwilydd yn archwilydd allanol y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig (ac eithrio'r archwiliad blynyddol o gyrff lleol y GIG ac awdurdodau lleol) a chafodd ei rymuso i gynnal archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Bryd hynny, roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAC) yn cyflawni'r gwaith hwn i'r Archwilydd ar sail statudol. Parhaodd y Comisiwn Archwilio i benodi archwilwyr ar gyfer cyrff y GIG a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru, a chynnal astudiaethau ohonynt. Ymestynnwyd ei waith pan gafodd bwerau arolygu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999.

### Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

**2.** Roedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2005, yn ehangu cylch gwaith yr Archwilydd i gynnwys archwilio cyrff y GIG yng Nghymru a'r swyddogaethau archwilio ac arolygu llywodraeth leol a arferwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Roedd Ddeddf 2004 hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff SAC a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i gyflogaeth yr Archwilydd i greu SAC.

### Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**3.** Yn 2013 pasiodd y Cynulliad Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013), a sefydlodd gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn uniongyrchol. Roedd y Ddeddf hefyd yn sefydlu SAC fel corff corfforaethol ac yn rhagnodi trefniadau llywodraethu ar gyfer yr Archwilydd a SAC, a'r berthynas rhwng y ddau. Cychwynnodd y rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf 2013 ar 1 Ebrill 2014.

## Datblygu Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**4.** Pan gyflwynwyd Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Bil ACC), nododd y Gweinidog Cyllid (ar y pryd) ac Arweinydd y Tŷ:

> "Mae'r Bil yn cyflawni ymrwymiad a wnaed gan y Prif Weinidog yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf y llynedd, i ystyried cryfhau a gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a threfniadau goruchwylio mewn cysylltiad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd yr ymrwymiad hwnnw'n deillio o ymddygiad ac arferion proffesiynol archwilydd cyffredinol blaenorol. Roedd diffyg trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd eglur yn ffactor cyfrannol sylweddol a oedd wedi caniatáu i'r archwilydd cyffredinol hwnnw ddiystyru systemau rheoli ei swyddfa. Achoswyd niwed sylweddol i enw da swydd gyhoeddus bwysig, o ganlyniad i'r gweithgareddau hynny."[1]

**5.** Roedd y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil ACC yn nodi'r rheswm dros ddatblygu'r Bil:

> "Roedd gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad bryderon am y trefniadau rheoli, llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â'r Archwilydd a'i Swyddfa. Cododd y pryderon hyn yn bennaf o'r modd y cyflawnodd y cyn-Archwilydd rai o'i ddyletswyddau, gan dynnu sylw at ddiffyg atebolrwydd allanol cadarn. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch y modd yr oedd yr Archwilydd yn gweithio gyda chyrff eraill ac yn defnyddio'r adnoddau cyhoeddus oedd ar gael iddo i hwyluso ei swyddogaethau a rhedeg SAC."[2]

**6.** Cyflwynodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) y Trydydd Cynulliad adroddiad[3] ar faterion yn ymwneud â chyn-Archwilydd, ac yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil ACC, nododd Llywodraeth Cymru dri phrif faes sy'n peri pryder:

- **Materion cyfrifyddu:** Amlinellodd Llywodraeth Cymru amrywiaeth o fethiannau, gan gynnwys cyfrifon nad oeddent yn cydymffurfio â'r

---

[1] Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2012

[2] Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 11

[3] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2011

Model Adrodd Ariannol; gwariant ar setliadau ymddeoliad cynnar; hawliau pensiwn; ac arian arall a gafwyd o'r pwrs cyhoeddus nas cyfrifwyd yn llawn.

- Materion priodoldeb: Roedd adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd ar y pryd (Huw Vaughan Thomas), i'w drafod gan y PCC, yn nodi fod ei ragflaenydd yn cuddio gwybodaeth yn fwriadol oddi wrth ei Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac uwch staff yr Archwilydd. Yn ogystal, yn ei Adroddiad yn 2011[4] daeth y PCC ar y pryd i'r casgliad bod yr ACC blaenorol wedi camarwain y Cynulliad a bod ei weithredoedd yn gyfystyr â chamymddwyn at ddibenion paragraff 2(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 (a oedd yn darparu ar gyfer diswyddo Archwilydd o'i swydd dan y fath amgylchiadau).

- Strwythurau llywodraethu: Nid oedd sail statudol i dri phwyllgor ymgynghorol yr Archwilydd cyn Deddf 2013 (archwilio a rheoli risg; adnoddau; a chydnabyddiaeth). Penodwyd aelodau'r pwyllgorau hynny gan yr Archwilydd (gyda mewnbwn gan enwebai Cadeirydd y PCC).

**7.** Nod Deddf 2013 oedd mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ac ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y PCC, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y byddai trafferthion tebyg yn codi eto a rhoi mwy o sicrwydd i'r Cynulliad a'r cyhoedd. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen gwahanu dyletswyddau'r Archwilydd a SAC er mwyn cyflawni'r amcanion hynny. Felly, o dan Ddeddf 2013, sefydlwyd SAC newydd fel corff corfforaethol i gyflawni swyddogaethau gweithredol, er enghraifft bod yn ddeiliad cyllideb, cyflogi staff, a sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu darparu. Roedd hefyd yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am godi a chasglu incwm ffioedd sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd i SAC.

**8.** Yn ogystal â chryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu sy'n ymwneud â'r Archwilydd a SAC, roedd y Bil hefyd yn ceisio gwarchod annibyniaeth a gwrthrychedd yr Archwilydd. O'r herwydd, mae Deddf 2013 yn cynnwys amrywiol ddarpariaethau sy'n nodi'r gydberthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru a chyrff eraill.

---

[4] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2011

## Craffu ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**9.** Bu PCC y Pedwerydd Cynulliad yn craffu ar y Bil ACC. Cyflwynodd adroddiad ar ôl craffu ar yr egwyddorion cyffredinol, gan nodi:

> "Lleisiodd y mwyafrif o ymatebwyr eu cefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth yn y maes hwn, er bod gan lawer bryderon penodol am y darpariaethau allweddol yn y Bil."[5]

**10.** Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud bod y rhai sy'n cefnogi'r angen am ddeddfwriaeth wedi dweud y byddai'r Bil yn cryfhau'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu ar gyfer yr Archwilydd a SAC ac y byddai'n darparu i'r Cynulliad chwarae rôl gynyddol wrth graffu ar ddefnydd yr Archwilydd a SAC o adnoddau. Roedd gan yr Archwilydd ar y pryd bryderon ynghylch y model llywodraethu arfaethedig, gan gynnwys maint a chyfansoddiad Bwrdd SAC.[6]

**11.** Yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru[7] ar y Bil ACC drafft, roedd yr ymatebion a oedd yn rhoi gwybodaeth am ffioedd yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y byddai'r ffioedd hynny yn cael eu pennu, sut i sicrhau y byddai ymgynghoriad ar y ffioedd hynny ac a ddylai'r pŵer/dyletswydd fod yn rhan o'r ddeddfwriaeth. Awgrymodd un o'r ymatebwyr (Estyn) y dylid talu'r costau yn ganolog, gan ddileu'r angen i godi ffioedd. Yn yr un modd, ni chodwyd unrhyw bryderon penodol yn y maes hwn yn sgil ymarfer ymgynghori PCC wrth graffu ar y Bil.

**12.** Cafodd Deddf 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.

[5] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, Tachwedd 2012, paragraff 22

[6] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, Tachwedd 2012, tudalen 14

[7] Dogfennau ymgynghori sydd ar gael o Archif Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru: Crynodeb o'r Ymgynghoriad, Ymatebion i'r Ymgynghoriad 1-15, Ymatebion i'r Ymgynghoriad 16-31

# 2. Y cefndir

## Rôl y Pwyllgor Cyllid

**13.** Mae Deddf 2013 yn gosod nifer o swyddogaethau ar y Cynulliad. Mae'r swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio'r Archwilydd a SAC wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor). Mae'r Pwyllgor wedi ystyried gweithrediad Deddf 2013 oherwydd ei rôl yn goruchwylio agweddau ar ofynion y ddeddfwriaeth honno.

**14.** Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Rheolau Sefydlog 18.10-11[8] ac maent yn cynnwys arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â:

- yr amcangyfrif o incwm a gwariant a chynigion cyllideb atodol ar gyfer SAC;
- cynghori'r Cynulliad ar benodi a diswyddo'r Archwilydd a chadeirydd SAC;
- penodi a diswyddo aelodau anweithredol SAC a dynodi Archwilydd dros dro;
- y trefniadau tâl cydnabyddiaeth a thelerau penodi eraill o ran yr Archwilydd Cyffredinol, Cadeirydd SAC ac aelodau anweithredol eraill o SAC;
- cymeradwyo cynllun ffioedd SAC;
- ystyried y Cynllun Blynyddol, yr Adroddiad Interim, a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a chyflwyno adroddiad arnynt;
- penodi archwilwyr ar gyfer cyfrifon SAC.
- ystyried adroddiadau a baratoir gan archwilwyr cyfrifon SAC.

[8] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Gwaith Craffu gan y Pwyllgor Cyllid

### Y Pedwerydd Cynulliad

**15.** Dechreuodd SAC a'r cyn-Archwilydd fynegi pryderon ynghylch Deddf 2013 gyda Phwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad, yn benodol mewn perthynas â'r darpariaethau ynghylch codi ffioedd. Ym mis Tachwedd 2014, nododd y cyn-Archwilydd, "That has taken us quite a bit of time this last year to try to get an understanding of what was intended. I have a view that it is an unintended consequence of a drafting error".[9]

**16.** Roedd adroddiad etifeddiaeth Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn cynnwys yr argymhellion a ganlyn:

> **Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn cael ei diwygio i wneud y gofynion o ran codi ffioedd archwilio yn glir, ac yn y cyfamser fod Swyddfa Archwilio Cymru yn dod i gyd-ddealltwriaeth â sefydliadau ynglŷn â'r hyn sy'n ofynnol o ran ffioedd, yn amodol ar unrhyw gyngor cyfreithiol perthnasol.
>
> **Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw bwyllgor cyfrifol yn y dyfodol yn cynnal ymchwiliad ar ôl deddfu i ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a sut mae'r rhain yn gweithio yn ymarferol, gyda golwg ar wneud argymhellion er mwyn eu gwella. Cred y Pwyllgor y dylai Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) fod yn weithredol am bum mlynedd cyn i'r adolygiad hwn gael ei gynnal.[10]

### Y Pumed Cynulliad

**17.** Yn ystod ei sesiwn flynyddol i graffu ar waith yr Archwilydd a SAC ym mis Tachwedd 2017, rhoddwyd copi o bapur yr Archwilydd a'r SAC blaenorol i'r Pwyllgor, sef 'Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru – achos dros newid'. Roedd hyn yn nodi atebion arfaethedig yr Archwilydd a'r SAC

[9] Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2014, paragraff 18

[10] Adroddiad Etifeddiaeth Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad, Mawrth 2016, pennod 6

blaenorol i broblemau gyda'r drefn ffioedd. Gwnaethant awgrymu bod y drefn ffioedd yn "yn gymhleth, yn llafurus ac yn gymhleth i lawer".[11]

**18.** Yn dilyn hynny, darparodd yr Archwilydd a SAC Fil a Nodiadau Esboniadol/Memorandwm Esboniadol drafft i'r Pwyllgor ar 21 Mehefin 2018.[12] Roedd hyn yn cynnwys cyfres o welliannau arfaethedig, yn bennaf i Ddeddf 2013, i fynd i'r afael â phryderon yr Archwilydd a SAC mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth honno, yn enwedig mewn perthynas â chodi ffioedd.

## Dull y Pwyllgor o weithredu

**19.** Ym mis Ionawr 2019, cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd â gwaith craffu ar ôl deddfu ac ystyried yr achos dros ddiwygio Deddf 2013, o ystyried ei bod bellach wedi bod ar waith am fwy na phum mlynedd.

**20.** Roedd gwaith craffu ar ôl ddeddfu'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar ddau faes:

- Ystyried materion a godwyd gan yr Archwilydd a SAC o ran Deddf 2013; gan gynnwys:
  - Codi ffioedd;
  - Trefniadau cworwm Bwrdd SAC;
  - Trefniadau adrodd SAC;
  - Problemau â gosod cyfrifon ac adrodd arnynt.
- Ystyried i ba raddau y gallai fod yn fanteisiol adolygu agweddau eraill ar Ddeddf 2013.

**21.** Gofynnwyd am dystiolaeth gan yr Archwilydd a SAC yn ogystal â swyddfeydd archwilio eraill ledled y DU, Llywodraeth Cymru, cyrff archwilio proffesiynol a sefydliadau a archwilir gan yr Archwilydd. Cafodd y Pwyllgor chwe ymateb i'r ymgynghoriad ac wedi hynny clywodd dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn:

---

[11] Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru – achos dros newid, Hydref 2017, tudalen 4

[12] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, 21 Mehefin 2018

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 13 Mehefin 2019 | Caroline Gardner, Archwilydd Cyffredinol yr Alban<br>Diane McGiffen, Prif Swyddog Gweithredu, Audit Scotland |
| 11 Gorffennaf 2019 | Alan Bermingham, Rheolwr Polisi, Llywodraethau, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth |
| 11 Gorffennaf 2019 | Huw Thomas, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Lynne Hamilton, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe<br>Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 11 Gorffennaf 2019 | Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru |
| 17 Gorffennaf 2019 | Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Isobel Garner, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru<br>Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru |

**22.** Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio breifat hefyd gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad â chyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r dyletswyddau a osodwyd ar y Cynulliad gan Ddeddf 2013.

## Barn y Pwyllgor

**23.** Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei ymchwiliad, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen diwygio Deddf 2013 er mwyn gwella effeithlonrwydd swyddogaethau a gyflawnir gan SAC a'r Cynulliad. Trafodir casgliadau'r Pwyllgor ar bob un o'r materion a nodwyd yn ystod ei waith craffu ar ôl deddfu mewn perthynas â'r Ddeddf yn y penodau sy'n weddill o'r adroddiad hwn.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi diwygiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a bydd yn ymgynghori ar Fil Drafft (gweler yr atodiad), gyda'r nod o'i gyflwyno yn ystod y Cynulliad hwn.

# 3. Codi ffioedd

**Y darpariaethau presennol**

Sefydlwyd SAC gan Ddeddf 2013 fel corff corfforaethol i fonitro a chynghori'r Archwilydd, ac i ddal a darparu adnoddau sy'n ofynnol at ddibenion swyddogaethau'r Archwilydd. Roedd hyn yn cynnwys rhoi i SAC y cyfrifoldeb am godi a chasglu incwm ffioedd. Nodir y darpariaethau o ran codi ffioedd yn adrannau 23-24 o Ddeddf 2013.

Mae adran 23 yn galluogi SAC i godi ffioedd am archwiliadau a swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag archwiliadau a gynhelir gan yr Archwilydd, ac unrhyw wasanaethau a ddarperir ganddo. Dim ond yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd a baratowyd gan SAC y gellir codi ffioedd. Ni chaiff y ffioedd a godir fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi (y rheol 'dim mwy na'r gost lawn') ac maent yn daladwy i SAC gan y person y mae'r swyddogaeth sy'n cael ei harfer yn ymwneud â hi.

Mae adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd SAC nodi swm neu raddfa unrhyw ffioedd rhagnodedig o dan ddeddfiadau sy'n ei galluogi i godi ffioedd, neu'r sail ar gyfer cyfrifo'r ffi yn absenoldeb swm neu raddfa o'r fath. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd penodol. Rhaid i SAC adolygu ei chynllun o leiaf unwaith y flwyddyn a'i gosod gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo.

Mae'r darpariaethau hyn yn ychwanegol at y trefniadau presennol, er enghraifft y gofyniad i osod ac ymgynghori ar y graddfeydd ar gyfer codi ffioedd ar awdurdodau lleol (adran 20 o Ddeddf 2004).

## Y mater dan sylw

**24.** Y darpariaethau yn adran 23 o Ddeddf 2013 yw'r prif beth sy'n cael sylw yng ngalwadau'r Archwilydd a SAC i newid y ddeddfwriaeth, yn benodol, y ddarpariaeth sy'n nodi'r hyn a ganlyn ynglŷn â'r ffioedd a godir gan SAC:

> "ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi."[13]

**25.** Cyfeiriodd yr Archwilydd a SAC at ddau fater sy'n codi yn sgil y ddarpariaeth hon:

- Mae dweud **"na chaiff y ffi fod yn fwy na'r gost lawn"** yn arwain at faterion lle y mae'n ofynnol i SAC ad-dalu gordaliadau os bydd cost y gwaith a wneir ganddi yn is na'r amcangyfrif; ac
- Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi diffiniad o **"swyddogaeth"** ac mae'r Archwilydd a SAC wedi dehongli bod hyn yn cyfeirio at bob gweithgaredd y byddant yn ymgymryd ag ef e.e. mae archwiliad perfformiad yn swyddogaeth wahanol i archwiliad o gyfrifon. Mae hyn yn golygu na ellir gwrthbwyso costau er mwyn lliniaru ad-daliad posib.[14]

**26.** Awgrymodd yr Archwilydd a SAC fod y derminoleg hon yn arwain at system aneffeithlon o ad-daliadau a phroses weinyddol feichus. Yn eu papur trafod "Symleiddio Trefn Ffioedd Gymhleth", gwnaethant nodi bod talu ad-daliadau a bilio am ffioedd ychwanegol yn digwydd yn aml yn yr un corff. Roeddent yn amcangyfrif bod cost weinyddol ychwanegol gweithredu'r rheol 'dim mwy na'r gost lawn' rhwng £27,700 a £47,700 y flwyddyn. Mae hyn yn ymwneud â chostau staffio mewnol SAC, gan gynnwys gweinyddu gordaliadau a than-daliadau, trafod ffioedd gyda chyrff a archwilir a monitro a rheoli amser yng nghyswllt y rheol 'dim mwy na'r gost lawn'.[15]

**27.** Nododd yr Archwilydd a SAC fod cymhlethdod y gwaith gweinyddu a achoswyd gan y rheol wedi arwain at fwy o gwynion am faint o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ac awgrymwyd bod datrys cwynion o'r fath yn cymryd "amser sylweddol, ac anghymesur yn aml".[16]

**28.** Roeddent yn dadlau bod y rheol 'dim mwy na'r gost lawn' yn "wrthanogaeth" i wella effeithlonrwydd gwaith archwilio:

---

[13] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Adran 23(5)(b)

[14] Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynigion ar gyfer Bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Mehefin 2018, Pennod 3

[15] Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynigion ar gyfer Bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Mehefin 2018, Tabl 2

[16] Tystiolaeth ysgrifenedig: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

> "Yn gryno, mae'r rheol yn golygu nad yw archwilwyr yn elwa o unrhyw arbedion y gellir eu gwneud drwy weithgaredd archwilio. Yn wir, ar lefel yr unigolyn, gall arbedion o'r fath arwain at golled bersonol (e.e. drwy golli gwaith), sy'n bwrw dŵr oer ar y brwdfrydedd dros effeithlonrwydd. Ac mae creu'r rheol yn nhermau swyddogaethau unigol (h.y. elfennau statudol neilltuol o waith) mewn cyrff unigol, yn golygu bod yna lawer iawn o waith cadw cofnodion a chysoni i'w wneud er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheol. Mae'r gweithgaredd hwn, yn anochel, ar draul gwaith sy'n ychwanegu gwerth."[17]

**29.** Er eu bod yn cydnabod ei bod yn anodd nodi'r union effaith, roedd yr Archwilydd a SAC yn amcangyfrif y gallai'r gwrthanogaeth hwn arwain at golli allan ar arbedion effeithlonrwydd o tua £12,000 y flwyddyn.[18]

**30.** Roeddent hefyd yn dadlau bod dilyn y rheol 'dim mwy na'r gost lawn' mewn perthynas â swyddogaethau unigol yn cynyddu'r cymhlethdod gweinyddol, gan fod sawl swyddogaeth yn cael eu cyflawni ym mhob corff yn gyffredinol, gan arwain at sawl achos lle y mae'n bosibl y bydd angen ad-dalu neu gynyddu ffi:

> "…nid yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer gwrthbwyso, a cheir risg cyn gynted ag y daw'n amlwg y codwyd mwy na chost lawn swyddogaeth berthnasol ar gorff, gellid dehongli bod y ffi yn anghyfreithlon."[19]

## Y sefyllfa mewn swyddfeydd archwilio eraill

**31.** Amlinellodd Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon y drefn yng Ngogledd Iwerddon:

> "my Office charges for some but not all of its audit work. The audit fees, which are based on charge out rates calculated by my Office on

[17] Tystiolaeth ysgrifenedig: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

[18] Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynigion ar gyfer Bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Mehefin 2018, paragraff 5.6

[19] Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynigion ar gyfer Bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Mehefin 2018, paragraff 3.6

> an annual basis, are the actual costs for each of the audits, and are invoiced post-audit completion."[20]

**32.** Esboniodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol hefyd y cyfuniad o ffioedd tybiannol a ffioedd a godir a ddefnyddir yng Ngogledd Iwerddon, gan nodi bod rhywfaint o hyn wedi'i ragnodi o fewn deddfwriaeth cyrff unigol neu ei fod drwy gytundeb.[21]

**33.** Mae Audit Scotland yn ddarostyngedig i sawl darpariaeth statudol wrth bennu taliadau, a nodir yn Neddf Atebolrwydd a Chyllid Cyhoeddus (Yr Alban) 2000. Mae adran 11(1) o'r Ddeddf honno yn nodi y caiff Audit Scotland godi taliadau rhesymol mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â rhai swyddogaethau. Yn ôl adran 11(3):

> "In determining the amounts of those charges Audit Scotland must seek to ensure that the total sum received in respect of the charges is, taking one year with another, broadly equivalent to its expenditure..."[22]

**34.** Disgrifiodd Archwilydd Cyffredinol yr Alban y ddyletswydd hon:

> "Audit Scotland has a statutory duty... to seek to broadly break even on audit work that is charged for, taking one year with another, either for each audit or for classes of audits. Audit Scotland treats each sector (e.g. local government, health) as a class of audits. Audit fees are set with the objective of recovering the full cost of audit work in each sector."[23]

**35.** Awgrymodd Archwilydd Cyffredinol yr Alban fod yr egwyddorion hyn yn gweithio'n dda, gan ychwanegu:

> "...that gives us a mechanism that is close enough to balance what we're spending on an audit and the income we raise from auditing that sector without having to get into very detailed micro-adjustments for individual bodies year on year that would consume a lot of resource

[20] Tystiolaeth ysgrifenedig: Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon

[21] Tystiolaeth ysgrifenedig: Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon

[22] Deddf Atebolrwydd a Chyllid Cyhoeddus (Yr Alban) 200, Adran 11(3)

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig: Archwilydd Cyffredinol yr Alban

> for us for very little benefit for the individual bodies, given the scale of their audit fees."[24]

**36.** Disgrifiodd Archwilydd Cyffredinol yr Alban yr hyblygrwydd yn neddfwriaeth yr Alban o ran dehongli'r term "dosbarth" i olygu sectorau, sy'n caniatáu i Archwilydd Cyffredinol yr Alban ac Audit Scotland gyfuno ffioedd ar draws sectorau:

> "I completely recognise that there may be some large audited bodies in the central belt that are audited by one of the auditors with a lower daily rate, who would see a lower cost as a result of that. But the quid pro quo for that is that there would be other audits further away, with an auditor at the upper end of our range of costs, who would be paying more. We don't think people should be paying more because of the way we choose to procure the audit. So, we pool costs in that way, and…we reconcile it at the end of each year and make sure the fees are set in the right place overall."[25]

**37.** O gymharu, mae llawr llai o gyfuno costau yng Nghymru. Mae rhai costau'n cael eu cynnwys yn Amcangyfrif SAC ac yn cael eu cyfrif fel rhan o'r cyllid y mae'r Pwyllgor yn craffu arno a gaiff ei gytuno gan y Cynulliad ac yna ei ddyrannu o Gronfa Gyfunol Cymru. Er enghraifft, mae costau teithio yn cael eu cyfartalu ar draws y cyrff a archwilir (yr amcangyfrif o gost y gweithgaredd hwn oedd £300,000 2019-20). Mae cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru y cytunwyd arno drwy broses yr Amcangyfrif hefyd wedi darparu cyllid ar gyfer gwaith paratoi gyda chyrff a archwilir ac ar gyfer treialu o ffyrdd newydd o weithio. Er enghraifft, cytunodd y Cynulliad ar gyllid ar gyfer treialu dulliau archwilio i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy'r Amcangyfrif blynyddol yn 2016.

## Yr ateb a awgrymwyd

Mae'r Archwilydd a SAC wedi cynnig trefn ffioedd sy'n seiliedig ar ddwy brif egwyddor:

- Adennill costau yn fras

---

[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2019, paragraffau 298 a 304

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2019, paragraff 312

- Cymryd un flwyddyn gydag un arall

Byddai hyn yn debyg yn ymarferol i'r gofynion statudol yn yr Alban.

Maent wedi awgrymu y dylid newid y derminoleg yn Neddf 2013 i:

*"…the WAO must seek to ensure that the sum of the fees charged for all of the work undertaken under the enactments mentioned in subparagraph (a), taken together and taking one year with another, is broadly equivalent to all of its expenditure in connection with that work."*

Yn ogystal, mae'r Archwilydd a SAC wedi cynnig dileu'r gofynion ar gyfer talu ffioedd gan yr unigolyn y mae'r swyddogaeth a gaiff ei harfer yn ymwneud ag ef. Gallai hyn, o bosibl, olygu bod modd ystyried ffioedd yn gostau wedi'u cyfuno ar draws sectorau.

## Y dystiolaeth

**38.** Casglodd yr Archwilydd a SAC farn rhanddeiliaid ar eu cynigion ar gyfer codi ffioedd yn eu papur 'Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru – achos dros newid'. Roedd y papur hwn yn nodi bod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cefnogi symleiddio'r drefn ffioedd – ar yr amod bod sicrwydd ynghylch unrhyw gynnydd mewn taliadau. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol er mwyn lleihau costau'r gwasanaeth a ddarperir gan SAC ac ar y sail bod rhaid i gyfraddau ffioedd fod mor dryloyw â phosibl (gydag arbedion effeithlonrwydd lle bynnag y bo modd).

**39.** Nododd Comisiwn y Cynulliad na fyddai rhai o'r materion a nodwyd o ran codi ffioedd yn berthnasol iddo, gan mai dim ond gwaith archwilio ariannol y sefydliad y mae'r Archwilydd a SAC yn ymgymryd ag ef. Serch hynny, nododd Comisiwn y Cynulliad fod y ffi archwilio wedi arwain at gryn drafodaeth yn ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chadarnhaodd ei fod wedi gweld rhai arbedion effeithlonrwydd a ffi ychydig yn llai yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd ag ambell ad-daliad bach.[26]

**40.** Roedd Comisiwn y Cynulliad o'r farn mai eglurder a thryloywder oedd yr agweddau pwysicaf ar unrhyw drefn codi ffioedd yn y dyfodol. Nododd y bu

[26] Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiwn y Cynulliad

"peth rhwystredigaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran oedi gyda rhoi amcangyfrifon o ffioedd archwilio", gan ychwanegu:

> "Fel cleient i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, byddem yn croesawu cyfundrefn sy'n sicrhau bod modd i ni gael amcangyfrifon ffioedd yn brydlon a bod arweinydd perthnasol yn nhîm ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru yn esbonio'n briodol y cyfrifiad a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i benderfynu ar y ffi arfaethedig."[27]

**41.** Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) hefyd yn ategu pa mor bwysig yw tryloywder o ran ffioedd, gan nodi, "for one or two authorities, the fee consultation is reported as being 'pretty academic'". Aeth CLlLC ymlaen i ddweud nad yw awdurdodau yn teimlo bod ganddynt lawer o ddylanwad dros ffioedd.[28]

**42.** Nododd CLlLC ei bod yn llwyr gefnogi cysoni strwythur ffioedd SAC â rhannau eraill o'r DU, gan gynnwys yr egwyddor o adennill costau a chaniatáu i SAC gymryd un flwyddyn gydag un arall.[29]

**43.** Roedd cyrff archwilio proffesiynol hefyd yn cefnogi cynnig yr Archwilydd a SAC. Dywedodd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA):

> …we would support the WAO having greater flexibility in this area, perhaps across multiple audited periods, as there is in Scotland and England. There may also be benefit in exploring what happens when an audit issue is identified and needs to be pursued.[30]

**44.** Cydnabu'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) nad yw'r rheol 'dim mwy na'r gost lawn' yn ffactor sy'n cyfyngu ar y ddeddfwriaeth:

> "…what happens elsewhere is that it's balanced over a number of years, so, over a couple of years at least, if they've put more effort into it one year, they'll balance that out next year. What that does is give a bit of

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiwn y Cynulliad

[28] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

> certainty, I suppose, to the body being audited about what the fees are, and eliminates a lot of the disputes and coming back and having to give small credits or increase the fees, which cause the audit office a lot of extra work. Really, you've got to ask what's the cost-benefit in doing that?"[31]

**45.** Cydnabu CIPFA hefyd y byddai trefn ffioedd mwy hyblyg yn rhoi cymhelliant i'r Archwilydd a SAC fod yn fwy effeithlon wrth gyflawni gwaith archwilio.[32] Fodd bynnag, nid oedd y cynrychiolydd o reidrwydd yn cytuno y byddai'r hyblygrwydd arfaethedig yn arwain at arbedion sylweddol o ran cofnodi'r amser a dreulir gan staff SAC wrth gynnal gwaith archwilio:

> "I still think that to set the fees in the first place and to get Assembly approval, they're going to have to look at their costs, look at the budget, look at the work plan they've got, and decide how they're going to recover those budgeted costs in that work plan. So, in that sense, there's going to be a fairly detailed analysis of who's doing what to arrive at the schedule of fees. So, in that sense, I don't necessarily see—. If there is some saving, it's small, it's not—. I can't see it."[33]

**46.** Er bod tystiolaeth o godi ffioedd safonol yn y sector masnachol, cydnabu ACCA nad yw'n digwydd yn gyffredinol ac awgrymodd y byddai rhoi'r gorau i gadw taflenni amser yn amharu ar drafodaethau SAC gyda chyrff a archwilir ynghylch ad-daliadau a thaliadau ychwanegol.[34]

**47.** Holodd y Pwyllgor dystion ynghylch y bwriad i gael gwared ar y gofyniad i ffioedd fod yn daladwy i SAC gan y person y mae'r swyddogaeth a gaiff ei harfer yn ymwneud ag ef, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyfartalu costau cyrff penodol.

**48.** Roedd ACCA yn cefnogi'r syniad y gallai SAC gyfuno costau ar draws sectorau "provided costs were shared only across those audits where certain costs apply, and that there is transparency in the approach"[35].

---

[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 27

[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 52

[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 64

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

**49.** Fodd bynnag, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn pryderu y gallai newid o'r fath newid natur sylfaenol y berthynas rhwng yr archwilydd a'r corff a archwilir. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a oedd yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

> "I'd want to be very mindful of the potential for unintended consequences, because I think, having a fee where there is a possibility of additional fees being incurred if the audit isn't conducted efficiently, is a helpful lever to make sure that there is an efficient audit process. And because of the level of scrutiny we have through audit committees, I would suggest that's probably a helpful process, both for the audited body in terms of transparency and for the auditor in terms of ensuring that efficiency."[36]

**50.** Gan sôn am y drefn ffioedd bresennol, nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) fod Deddf 2013 yn rhoi disgresiwn i SAC ddatblygu cynllun codi ffioedd sy'n gysylltiedig â'i gweithgareddau, er bod hynny wedi'i gyfyngu i swyddogaethau, a chydnabu yr awgrymiadau ar gyfer gwella.[37] Ychwanegodd:

> "In terms of the principle of setting fees to cover the full cost of public services, well, that is a basic principle in our 'Managing Welsh Public Money' document, and it's intended to make sure that public organisations neither profit at the expense of consumers or make a loss that taxpayers would then have to subsidise. So, it is an important principle, I think, that should be retained within this area. But there's no reason why the Wales Audit Office shouldn't be looking, for example, to undertake some private sector work in order to have an income, as long as it doesn't detract from its primary purpose."[38]

**51.** Wrth ymateb i sylwadau'r cyn-Archwilydd fod y materion o ran y drefn ffioedd yn ganlyniad anfwriadol i wall drafftio, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

---

[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 161

[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 239

[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 240

> "I'm not sure it would necessarily be an unintended consequence, I think it was probably a response to the specific circumstances at that time. But that said, I think that some of the changes now that have been proposed certainly make sense. So, there is no problem in principle, for example, with supporting the charging of the entity rather than functions. I think that there's a lot of sense there, but we would obviously want to know a little bit more detail in terms of how that would work in practice."[39]

**52.** Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y cynnig i ganiatáu i SAC archwilio dros fwy nag un flwyddyn ariannol:

> "…we've already had that principle established within the NHS. They have a reporting period of balancing their budgets over three years…It would be, I think, for the Finance Committee to explore what you'd be happy with."[40]

**53.** Nododd yr Archwilydd a SAC eu bod wedi cael cwynion am y drefn ffioedd gan gyrff a archwilir.[41] Dywedodd yr Archwilydd wrth y Pwyllgor fod y cwynion a gafwyd yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn y swydd [dechreuodd yr Archwilydd ei gyfnod yn y swydd ar 21 Gorffennaf 2018] wedi'u gwneud gan gyrff bach, fel cynghorau tref a chymuned.[42] Aeth yn ei flaen:

> "I guess where it interacts with the legislation is that—. I don't want to underplay this; I appreciate for a small body on a very limited budget with very limited professional resource at their disposal, the audit fee is an issue. But the legislation drives us to investigate any such correspondence in considerable detail. So, I think in our submission to you, we gave an example where we deployed well over £1,000 of resource internally to respond to a piece of correspondence from a community council that resulted, at the end of it, in a refund of £6 or so, and that is not a sensible regime, I don't think, for a national audit

---

[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 227

[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 229

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 176

> body like ours to be operating within. So, a handful of complaints, but I really wouldn't want to overplay them."[43]

**54.** Cadarnhaodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC ei fod wedi ymdrin â phedair cwyn o'r fath yn 2017-18 ac, er mai nifer fach o gwynion a gafwyd, roedd y rheol "dim mwy na'r gost lawn" yn golygu bod angen cynnal ymchwiliadau llym iawn ar gyfer materion cymharol fach.[44]

**55.** Wrth ymateb i dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor, bod gan gyrff a archwilir fwy o ddiddordeb yn lefel y ffi yn hytrach na'r drefn sy'n llywodraethu'r ffi, dywedodd Cadeirydd SAC:

> "We agree that, for some audited bodies, the level of fee is concerning rather than a complaint. The current legislation acts as a disincentive for in-year audit efficiency, and we bear the direct pain of the administrative burden of this 'no more than full cost' rule, which is why we brought forward these proposals, because it would allow us to be more efficient and incentivise that in-year efficiency."[45]

**56.** Aeth yr Archwilydd ymlaen i ddangos sut mae'r gwrthanogaeth hwn i wella effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn yn effeithio ar allu'r sefydliad i weithio'n fwy hyblyg:

> "…our accounts work largely is fee funded, and much of our performance work is funded by the consolidated fund, where we have much more flexibility. I'm encouraging the organisation to see the synergies between those different parts of our work and bring them together to produce new and better audit products—for you in the Assembly, for the public at large. Administratively, when I try to take staff who are fee funded away from that work, or encourage them to be more efficient, to free up some of their time to deliver something new and fresh, we're left in this vicious circle. Because I can't take them off there, because then we don't earn the fee that keeps them in that role. So, over time, of course, you can smooth those things and find a more sensible balance, and that's the sort of change that would

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 177
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 183
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 186

> be really beneficial for us. But at the moment we're locked into this straitjacket of the 'no more than cost' rule, keeping our resource locked in to particular areas of work, and not freeing it up, as I'd like to be able to do."[46]

**57.** Gofynnodd y Pwyllgor pa fecanweithiau a fyddai ar waith, pe bai'r newid arfaethedig i ddeddfwriaeth yn cael ei wneud, er enghraifft i herio ffioedd mewn rhai amgylchiadau. Rhoddodd yr Archwilydd sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y lefel bresennol o ddeialog a thryloywder yn parhau.[47] Esboniodd Cyfarwyddwr Cyllid SAC:

> "…we'll still set a fee scheme. That will be linked to the estimate that the committee discusses every October. The fee scheme and the estimate go hand in hand, so it sets our cost base for the year, based on the audits we see undertaken, and then the fee rates that we need to recover in order to cover our cost base. We'll still have the transparency in fee-setting discussions with audit committees linked to the audit plan that we'll have in place for each of those. I think a strength will be the fixed fee approach. So, instead of a fee that can vary during the year, audit bodies will have the certainty that this is the fee that we're going to charge them for the year."[48]

**58.** Pan holwyd yr Archwilydd ynglŷn â bwriad y term a gynigiwyd, sef 'broadly break even' (adennill costau yn fras), cadarnhaodd fod hyn yn adlewyrchu'r geiriad yn neddfwriaeth gyfatebol yr Alban. Esboniodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC:

> "…the idea is not to create a particular figure, because then you lose discretion as to what 'broadly' means. But it relates to taking one year with another, and essentially it puts beyond doubt that we don't have to aim for a spurious level of accuracy in setting our fees.
>
> Clearly, at the end of the year, if we have over-recovered to a very great extent; the auditor will notice that and will take the view that actually—hopefully this won't come to pass—we've been setting the

[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 187

[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 191

[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 192

> fees too high. So, that would be a reporting point that we would want to avoid. It doesn't affect the transparency, because we'd still be setting fees in advance and people would be open to discussion on them."[49]

**59.** Dywedodd Cyfarwyddwr Cyllid SAC wrth y Pwyllgor fod 19 o gyrff wedi cael ad-daliad o £61,000 yn 2017-18. Y swm isaf a ad-dalwyd oedd £271.51 a'r swm uchaf oedd £11,600. Aeth yn ei flaen:

> "And of all of the 19 cases, only four of them were above 5 per cent of the fee. So, the context is very narrow. We're not talking huge sums here. So, our suggestion to take one year with another is about just correcting it from the one year where we found that experience into the next year, where again the audited body can have that certainty that that's going to be their fee for that year, and we don't need to generate any more than the cost that is in our estimate."[50]

**60.** Gofynnodd y Pwyllgor pam fod angen dileu'r gofyniad i ffioedd gael eu talu gan y person y mae'r swyddogaeth ymwneud ag ef, o gofio bod cynsail i rai costau Cymru gyfan gael eu cynnwys yn yr amcangyfrif blynyddol a'u hariannu drwy ddyraniad o Gronfa Gyfunol Cymru. Esboniodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC:

> "…in order to get closer to the Scottish model that we'd like—taking one year with another, probably breaking even—you have to take that 'by the person' out, because otherwise it just won't work."[51]

**61.** Gan ymateb i'r awgrym y byddai dileu'r gofyniad i ffioedd gael eu talu gan y person y mae'r swyddogaeth yn ymwneud ag ef yn dileu'r cymhelliant ariannol i drafod ffioedd, dywedodd yr Archwilydd:

> "The level of noise in the system about the absolute level of fees that we charge seems very low to me. As I said at the start, I think there are significant gains at the margin if we can drive efficiencies in-year in much of our fee-earning work in order to deliver valuable outputs to the Assembly and the wider public that are perfectly in keeping with

[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraffau 202-203

[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 211

[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 345

> the budget the Assembly approves. We would be reporting back to you annually on how we have been able to do that or not. So, I can see your argument, but I really don't think that the changes that we're suggesting to the legislation would take away the discipline of the current system and lead to any concerns from your perspective."[52]

## Barn y Pwyllgor

**62.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y drefn ffioedd gyfredol wedi arwain at broses a system gymhleth o godi ffioedd, ac mae o'r farn y gellid symleiddio hyn drwy roi mwy o hyblygrwydd i'r Archwilydd a SAC o ran sut maent yn codi ac yn gweinyddu ffioedd.

**63.** Ar ôl archwilio'r opsiynau a gyflwynwyd gan yr Archwilydd a SAC, a'r dystiolaeth o swyddfeydd archwilio eraill y DU, mae'r Pwyllgor yn cytuno y byddai caniatáu i SAC adennill costau yn fras, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall, yn sicrhau'r hyblygrwydd hwnnw.

**64.** Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor yn derbyn bod angen deddfu i hwyluso hyblygrwydd yn y maes hwn, mae'n ymwybodol bod angen cytuno ar ddiffiniad cyffredinol o hyd a lled yr hyblygrwydd hwnnw yn ymarferol. Bydd y Pwyllgor yn disgwyl i SAC amlinellu'r egwyddorion hyn ar gyfer cyrff a archwilir, a'r Pwyllgor, fel rhan o'i broses gosod ffioedd flynyddol.

**65.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi barn rhanddeiliaid bod yn rhaid i dryloywder y broses o bennu a chodi ffioedd fod wrth wraidd unrhyw broses ffioedd. Mae'r Pwyllgor yn deall y gobaith o sicrhau effeithlonrwydd yng ngweinyddiaeth fewnol SAC, ond ni ddylai gwelliannau o dan drefn newydd rwystro gallu cyrff a archwilir i herio a chraffu ar eu ffioedd. Nid yw mwy o hyblygrwydd yn gyfle i greu gwarged ar waith archwilio statudol a bydd angen i SAC sicrhau bod ganddi broses sy'n cyflwyno'r ffioedd a godir yn ddealladwy ac yn glir i gyrff a archwilir.

**66.** Er mwyn dangos bod newid yn y drefn ffioedd wedi bod yn fuddiol, bydd y Pwyllgor yn disgwyl i SAC ddangos a meintioli'r arbedion cost o weithredu unrhyw gynllun newydd yn ystod y sesiynau craffu blynyddol. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i SAC hefyd ddangos unrhyw ostyngiad yn y galw ar Gronfa Gyfunol Cymru neu (gyda chytundeb y Cynulliad) sut y mae cronfeydd wedi'u hail-fuddsoddi.

---

[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 213

**67.** Er bod tystion yn gefnogol i hyblygrwydd wrth godi ffioedd, roedd y dystiolaeth yn awgrymu na fyddai'n ddymunol dileu'r gofyniad i ffioedd gael eu talu gan y corff y mae'r swyddogaeth yn ymwneud ag ef. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai dileu'r gofyniad hwn arwain at lai o dryloywder i gyrff a archwilir, cynyddu'r risg y bydd corff a archwilir yn ymgysylltu'n llai effeithiol â'r archwiliad, ac y gallai effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng yr archwilydd a'r corff a archwilir. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod angen y newid hwn, yn enwedig os bydd mwy o hyblygrwydd wrth godi ffioedd yn sgil dileu'r rheol "dim mwy na'r gost lawn". At hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y gwaith craffu blynyddol ar yr Amcangyfrif yn gyfle i'r Archwilydd a SAC ofyn am adnoddau i dalu costau gweithgareddau y gallai fod angen eu cyfuno ar draws nifer o gyrff ac mae'n credu bod y mecanwaith hwn yn ddull mwy tryloyw a phriodol.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan y dystiolaeth sy'n cefnogi diwygio'r darpariaethau codi ffioedd presennol ac mae'n cynnig diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn:

- dileu'r gofyniad na ddylai ffioedd fod yn fwy na chost lawn y swyddogaeth y maent yn ymwneud â hi; a
- galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau bod swm y ffioedd a godir am yr holl waith a wneir yn cyfateb yn fras i'r cyfanswm a wariwyd mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall.

**Casgliad 3.** Er ei fod yn cefnogi darpariaethau ffioedd mwy hyblyg, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen am dryloywder a byddai'n disgwyl i Swyddfa Archwilio Cymru ddiffinio paramedrau trefn codi ffioedd mwy hyblyg ar gyfer cyrff a archwilir a'r Pwyllgor, fel rhan o'i gynllun ffioedd blynyddol.

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cadw'r gofyniad i ffioedd gael eu talu gan y corff y mae'r swyddogaeth yn ymwneud ag ef er mwyn sicrhau tryloywder i gyrff a archwilir, ymgysylltiad effeithiol yn yr archwiliad ac i gynnal y berthynas rhwng yr archwilydd a'r corff a archwilir.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

**Cwestiwn 1**

A ydych yn cytuno y dylid rhoi hyblygrwydd i Swyddfa Archwilio Cymru o ran sut y mae'n codi ac yn gweinyddu ei ffioedd drwy ganiatáu iddi adennill costau yn fras, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall?

**Cwestiwn 2**

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 3 ac adran 4 o'r Bil Drafft?

# 4. Gwaith cytundeb

**Y darpariaethau presennol**

O dan adran 19 o Ddeddf 2013, caiff SAC gytuno i drefnu i ddarparu gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol i gyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys cyrff y tu allan i Gymru (a elwir yn "waith cytundeb").

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, mae adran 23 o Ddeddf 2013 yn galluogi SAC i godi ffioedd am archwiliadau a swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag archwiliadau a gynhelir gan yr Archwilydd, ac am unrhyw wasanaethau a ddarperir ganddo. Dim ond yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd a baratowyd gan SAC y gellir codi ffioedd. Ni chaiff y ffioedd a godir fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi (y rheol 'dim mwy na'r gost lawn') ac maent yn daladwy i SAC gan y person y mae'r swyddogaeth sy'n cael ei harfer yn ymwneud â hi.

## Y mater dan sylw

**68.** Er bod gwaith cytundeb yn cael ei drefnu'n gystadleuol fel rheol, mae'r rheol 'dim mwy na'r gost lawn' yn ei gwneud yn ofynnol, os bydd SAC yn gwneud elw ar y gwaith hwn, iddi ad-dalu'r incwm hwnnw i'r cleient, sy'n atal cyllid cyhoeddus Cymru rhag elwa o unrhyw wargedion.

**69.** Mae enghreifftiau o waith cytundeb y mae SAC wedi bod yn rhan ohono yn cynnwys:

- Archwilio cyfrifon Llywodraeth Anguilla
- Cymorth hyfforddiant i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Malta
- Adeiladu capasiti a chymorth i Montserrat

**70.** Awgrymodd yr Archwilydd a SAC fod ad-daliadau a roddwyd ar waith cytundeb wedi dod i gyfanswm blynyddol o £7,500 ar gyfartaledd dros y pedair blynedd diwethaf.[53]

[53] Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynigion ar gyfer Bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Mehefin 2018, paragraff 5.7

## Yr ateb a awgrymwyd

Mae gwaith cytundeb yn galluogi SAC i ennill ffioedd ychwanegol y gellir eu buddsoddi yn y sefydliad neu eu dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Archwilydd a SAC yn cynnig cael gwared ar y rheol 'dim mwy na'r gost lawn' a'r gofyniad i nodi'r ffioedd am waith cytundeb yn y cynllun ffioedd. Byddai hyn yn caniatáu i SAC bennu telerau ac amodau gwaith cytundeb a byddai'n dileu'r gofyniad am ad-daliad pe bai'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni am lai na'r gwerth y cytunwyd arno gyda'r cwsmer, neu pe bai SAC yn gwneud 'elw' ar y ffi.

## Y dystiolaeth

**71.** Er mai mater mewnol i'r Archwilydd a SAC oedd hyn yn bennaf, gofynnwyd am farn rhanddeiliaid fel rhan o ymgynghoriad yr Archwilydd a SAC ar newidiadau. Roedd eu papur 'Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru – achos dros newid' yn crynhoi barn rhanddeiliaid. Roedd y papur yn nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i symleiddio yn y maes hwn. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylid ail-fuddsoddi gwarged i leihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac y dylai'r gwaith hwn fod ar gyfer gweithgareddau y tu allan i Gymru yn unig o bosibl (er mwyn osgoi traws-sybsideiddio taliadau).

**72.** Dywedodd Prif Swyddog Gweithredu Audit Scotland wrth y Pwyllgor ei fod yn gwneud gwaith archwilio i gyrff eraill ar sail adennill costau yn fras. Aeth ymlaen i nodi ei fod wedi bod yn gyfle datblygu personol a sefydliadol hollol wych i unigolion, ac yn gyfle hefyd i ddysgu gan sefydliadau eraill.[54]

**73.** Awgrymodd ACCA y gallai fod yn ddryslyd pe bai gan SAC ddwy drefn codi ffioedd (un ar gyfer gwaith statudol ac un arall ar gyfer gwaith cytundeb). Nododd:

> "The WAO would need controls in place to ensure that its statutory work retained primacy. Controls would be needed to mitigate risk from non-statutory audit work that is not covered by Parliamentary

[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2019, paragraffau 349 a 356

> Privilege. We imagine those controls would include increased oversight from the Board (as with the NAO)."[55]

**74.** At hynny, nododd ACCA:

> "In an audit environment where conflicts of interest, perceived as well as factual, are receiving increasing attention, this would be a move in the opposite direction. It could be argued that a move to allow the WAO to bid for non-statutory audit work should only be accompanied by opening up the market for the WAO's statutory work." [56]

**75.** Amlinellodd ACCA hefyd yr adnoddau sydd eu hangen i gynnig am waith ar sail gystadleuol ac awgrymodd y bydd angen i SAC benderfynu faint o adnoddau i'w defnyddio ar gyfer gwaith cystadleuol a faint i'w cadw ar gyfer ei phrif bwrpas.[57]

**76.** Ar y llaw arall, roedd CLlLC yn cefnogi mwy o hyblygrwydd i SAC bennu telerau ac amodau gwaith cytundeb ac awgrymodd y Byrddau Iechyd nad oeddent yn poeni bod SAC yn gwneud mwy o waith yn y maes hwn. Fodd bynnag, roedd hyn ar sail y rhoddir sicrwydd ynghylch gwrthdaro buddiannau a bod mesurau ar waith i gadw cydbwysedd.[58]

**77.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd ganddi unrhyw bryderon bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith preifat, ar yr amod nad yw'n tynnu sylw oddi wrth ei phrif waith craidd yn y sector cyhoeddus, gan gyfeirio at yr arbenigedd a ddatblygwyd o fewn y sefydliad a'i enw da rhyngwladol. Awgrymodd y Gweinidog hefyd y byddai angen i'r Pwyllgor ystyried sut y gellid defnyddio elw o bosibl i leihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei ddychwelyd i'r Gronfa.[59]

**78.** Pan ofynnwyd i Gadeirydd SAC pa mor briodol ydoedd i wneud elw ar waith cytundeb a pha fesurau diogelwch fyddai ar waith i liniaru'r risg o ymgymryd â gwaith o'r fath, dywedodd:

---

[55] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraffau 173-174, 176 a 178
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraffau 295-296

> "I'd like to emphasise that agreement work is very much at the margins of the work that the Wales Audit Office undertakes. And every year the board has to agree our approach to commissioned work, agreement work. One of our key tests is that it doesn't compromise our core statutory work, and we keep a very tight cap on how much agreement work we're prepared to tolerate. Agreement work is very beneficial because it provides great opportunities for our staff, both personal and professional development. And agreement work tends to be used when we have a capacity—so, not in our peak periods, but when we need to be able to provide worthwhile work for our staff."[60]

**79.** Rhoddodd Cadeirydd SAC sicrwydd i'r Pwyllgor fod nifer o fesurau diogelwch ar waith, gan gynnwys asesiad risg o bob darn o waith, a chymeradwyaeth Bwrdd SAC ar gyfer unrhyw waith sy'n werth dros £50,000.[61]

**80.** Wrth sôn am unrhyw elw a wneir drwy waith cytundeb, dywedodd yr Archwilydd:

> "It depends on its scale and timing, obviously, but, yes, it would either be deployed by us on other matters within the ambit or, if we were unable to do that, just as we do with any other underspends at the moment, we'd return that to the fund."[62]

**81.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai Bwrdd SAC yn ystyried ceisio creu llif incwm mwy sylweddol o waith cytundeb i'w ail-fuddsoddi yn y sefydliad neu ei roi yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru, esboniodd Cadeirydd SAC:

> "We have debated that as a board when we get the annual commission strategy, and it is a fine line. At the moment, the board has decided that that is not in keeping with our organisational purpose, because we have debated pushing the boundaries and getting in a lot of commissioned work, but at the moment we are taking the view that it is there primarily for professional and personal

[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 261

[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 262

[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 276

development and for the effective utilisation of staff. So, that's the view of the board at the moment, but it is at the margins."[63]

## Barn y Pwyllgor

**82.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y buddion posibl yn sgil caniatáu i SAC bennu telerau ac amodau gwaith cytundeb. Yng nghyd-destun y cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus, mae'r cyfle i gynhyrchu incwm i naill ai leihau faint y mae SAC yn ei gymryd o Gronfa Gyfunol Cymru neu er mwyn ildio'r incwm i Gronfa Gyfunol Cymru yn opsiwn deniadol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y buddion a roddir i staff SAC o ran y cyfle i feithrin sgiliau a phrofiad o wahanol amgylcheddau gwaith o dan y trefniadau hyn.

**83.** Gan nad yw gwaith cytundeb yn rhan o weithgarwch craidd SAC ym marn y Pwyllgor, ni fyddai am i waith cytundeb effeithio ar gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd a SAC. Er ei fod yn cydnabod y cyfle i gynhyrchu incwm a datblygu arbenigedd, ni fyddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn y math hwn o waith o dan drefn ffioedd newydd. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn disgwyl gweld bod mesurau diogelwch digonol ar waith i atal unrhyw wrthdaro buddiannau a allai godi. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i SAC wahanu'n glir rhwng gwaith cytundeb a'i chyfrifoldebau statudol craidd a dangos yn glir sut y mae unrhyw incwm (ac elw) o waith cytundeb yn cael ei ddefnyddio.

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynnig Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i osod ei delerau a'i amodau ei hun ar gyfer gwaith cytundeb ac ennill ffioedd ychwanegol o fewn rheswm i'w hail-fuddsoddi yn y sefydliad neu eu rhoi i Gronfa Gyfunol Cymru, cyhyd â bod mesurau diogelwch digonol ar waith i amddiffyn eu gwaith statudol ac atal gwrthdaro buddiannau.

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cynnig diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i ddileu'r cysylltiad rhwng gwaith cytundeb a'r cynllun ffioedd i ganiatáu i Swyddfa Archwilio Cymru bennu ei thelerau a'i hamodau ei hun.

---

[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 283

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru bennu ei thelerau a'i hamodau ei hun ar gyfer gwaith cytundeb?

### Cwestiwn 4

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 2 o'r Bil Drafft?

# 5. Trefniadau cworwm

**Y darpariaethau presennol**

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd SAC gynnwys naw aelod:

- pum person nad ydynt yn gweithio i SAC ("aelodau anweithredol")

- Archwilydd Cyffredinol Cymru, a

- thri o weithwyr SAC ("aelodau sy'n gyflogeion")

Mae Paragraff 28(3) o Atodlen 1 yn nodi gofyniad statudol mewn perthynas â rheolau cworwm SAC, sef:

*"...na ellir bodloni cworwm ar unrhyw adeg oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol."*

## Y mater dan sylw

**84.** Mae'r Archwilydd a SAC yn awgrymu bod y ddarpariaeth cworwm yn "drafferthus" am mai dim ond mwyafrif o un sydd gan swyddogion anweithredol ar y Bwrdd. Mae hyn yn golygu y gall absenoldeb unrhyw swyddog anweithredol olygu na fydd cworwm yng nghyfarfodydd y Bwrdd.[64]

**85.** Roedd y nodiadau a oedd yn cyd-fynd â Bil drafft arfaethedig SAC yn nodi nad oedd cworwm mewn chwech (21 y cant) o'r 28 o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd ers cychwyn Deddf 2013. Esboniodd y papur hefyd, pan na fydd cworwm ar y Bwrdd, fod y cyflogeion etholedig "yn dueddol o dynnu yn ôl, am nad ydynt yn cyflwyno materion ar gyfer craffu neu benderfyniad".[65] Dywedodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC wrth y Pwyllgor nad oedd yn credu bod y Bwrdd wedi cynnal unrhyw bleidleisiau a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy gonsensws fel arfer.[66]

[64] Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

[65] Llythyr oddi wrth yr Archwilydd a SAC, 21 Mehefin 2018

[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Gorffennaf 2018, paragraff 219

**86.** Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn, dywedodd yr Archwilydd a SAC, ers y llythyr hwnnw:

> "...mae'r broblem wedi parhau gydag un o bedwar cyfarfod y WAO heb gworwm oherwydd absenoldeb un aelod anweithredol. Yn yr achos hwnnw, gwnaeth un aelod etholedig oedd yn gyflogai adael y cyfarfod er mwyn sicrhau cworwm. A derbyn y sefyllfa anfoddhaol hon, fe wnaethom ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol, oedd yn cadarnhau, os na chaiff PAWA 2013 ei diwygio, ei bod yn angenrheidiol symud aelodau sy'n gyflogeion o gyfarfodydd er mwyn atal penderfyniadau rhag bod yn annilys."[67]

**87.** Mae'r Archwilydd a SAC wedi awgrymu nad yw'r cworwm terfynol a nodwyd yn Neddf 2013 fel y'i pasiwyd yn ystyried yr aelodau sy'n gyflogeion a ychwanegwyd i'r Bil yn ystod y camau diwygio.[68]

## Y sefyllfa mewn swyddfeydd archwilio eraill

**88.** Nid oes gofyniad statudol bod cyfarfodydd Bwrdd Cynghori Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO) yn cynnwys mwyafrif o aelodau anweithredol. Ond mae Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon yn nodi bod y trefniadau aelodaeth yn golygu na all cyfarfod gael ei gynnal gyda mwyafrif o swyddogion gweithredol (gan fod y Bwrdd yn cynnwys dau swyddog gweithredol yn unig).[69]

**89.** Er iddo nodi nad yw'n Fwrdd statudol fel yng Nghymru, amlinellodd Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon y cynigion diweddar ar gyfer cylch gorchwyl Bwrdd Cynghori NIAO. Dyma'r rheolau a gynigiwyd:

> "A minimum of two non-executives and one executive member of the Advisory Board must be present for the scheduled meeting to be deemed quorate. If appropriate, a meeting may be conducted by conference call. Non-executives members will have free and confidential access to the C&AG and may also meet informally without

---

[67] Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

[68] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, 21 Mehefin 2018

[69] Tystiolaeth ysgrifenedig: Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon

> executive members at any time outside of scheduled meetings. The Advisory Board may meet in private, if necessary."[70]

**90.** Yn yr Alban, nid yw cworwm y Bwrdd wedi'i bennu mewn deddfwriaeth. Nododd Prif Swyddog Gweithredu Audit Scotland rai o'r prif ystyriaethau yr oedd eu hangen ynghylch y Bwrdd yn ei barn hi:

> "I think that recognising the key interests of the auditor general and the Accounts Commission on the board is critical, and also having that balanced by independent membership—bringing additional skills and additional challenge to the board is helpful."[71]

**91.** Aeth ymlaen i ddweud:

> "...with a small size of board, things are working well and there's a lot of independence and rigour about the challenge and the relationship between the chair of the board, the auditor general, the chair of the Accounts Commission and other board members with the Scottish Commission for Public Audit ensures that links to Parliament, but also the independence from any individual component element of Parliament as well. So, there's a lot to get right in that."[72]

**92.** At hynny, dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Bwrdd wedi ystyried ei drefniadau cworwm yn ddiweddar, gan anelu at fwy o hyblygrwydd.[73] Cyhoeddwyd yr adolygiad hwnnw ym mis Mehefin 2019 ac roedd yn argymell y dylai'r Bwrdd gynnal adolygiad pellach i benderfynu a ddylai fod yn ofynnol bod mwyafrif o aelodau annibynnol ar y Bwrdd i fodloni cworwm. [74]

## Yr ateb a awgrymwyd

Mae'r Archwilydd a SAC yn awgrymu y dylid dileu'r gofynion cworwm yn Neddf 2013.

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig: Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon

[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2019, paragraff 324

[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Trafodion, 13 Mehefin 2019, paragraff 325

[73] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2019, paragraff 334

[74] Comisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban, Adroddiad ar Adolygiad Bwrdd Archwilio'r Alban a Chomisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban, 26 Mehefin 2019, Argymhelliad 1

Ni awgrymir rhoi unrhyw beth yn lle hynny ac felly byddai hyn yn caniatáu i Fwrdd SAC bennu ei gworwm ei hun.

## Y dystiolaeth

**93.** Pan ystyriodd y Pwyllgor y Bil drafft cyntaf ym mis Gorffennaf 2018, rhoddodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC arwydd o'r opsiynau posibl o ran cworwm:

> "I think that there are various options. One is to set quorum at the level so that the numbers are equal, so that there's no less a number of non-execs than execs, but I think there's also scope to explore this in terms of the actual nature of what we're so far calling 'executive members' but which aren't really of one class because they're not executive members in the usual sense."[75]

**94.** Trafododd y Pwyllgor hefyd y posibilrwydd o ychwanegu aelod anweithredol i'r Bwrdd, er bod Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC wedi nodi y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol, a'r posibilrwydd o leihau nifer y cyfarwyddwyr ar y Bwrdd a'u gwneud yn aelodau nad ydynt yn pleidleisio. Awgrymodd yr Archwilydd fod angen i Gyfarwyddwr arall fod yn bresennol rhag ofn ei fod ef ei hun yn absennol.[76]

**95.** Awgrymodd ACCA:

> "The current Board structure, which is 5 non-executive and 4 WAO employees, could be made 6:3 with a non-executive majority which would arguably be more consistent with good practice where the Board's responsibilities are oversight in nature. More non-executives might also make it easier to be quorate."[77]

**96.** Awgrymodd cynrychiolydd CIPFA fod strwythur presennol y Bwrdd yn enghraifft o arfer da, er gwaethaf y materion o ran cworwm. Awgrymodd fod gwahaniaeth rhwng y ffordd y mae SAC a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ceisio bodloni cworwm. Tra byddai SAC, yn gyffredinol, yn gofyn i aelodau gweithredol adael, byddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn newid statws

[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Gorffennaf 2018, paragraff 193

[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Gorffennaf 2018, paragraffau 199, 202, 204-205

[77] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

rhywun i fod yn arsylwr. Mae hyn yn golygu y gallant gyfrannu at drafodaethau fel arsylwyr ond na allant bleidleisio. Awgrymodd hefyd y gallai aelodau sy'n gyflogeion gael eu hystyried fel "etholaeth" wahanol i aelodau gweithredol ac anweithredol.[78]

**97.** Cydnabu'r Gweinidog fod y ffaith bod angen mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol i gael cworwm yn creu problem:

> "The Wales Audit Office has clearly identified this as one of the areas in which improvements could be made. I know in the evidence paper that the Wales Audit Office provided to committee that it looked at the requirement for two elected members and recognised that that was a late amendment to the legislation in its passage through the Assembly, so the consequences of that might not have been fully explored or fully recognised—so suggests the Wales Audit Office, in any case. And it says that there was a debate about the possibility of creating constituencies, and that was where the interest was, rather than that quorum issue. So, again, this is something that I think is a very legitimate area for change."[79]

**98.** Awgrymodd y Gweinidog hefyd efallai y byddai'r Pwyllgor am ystyried cynnwys cynrychiolydd undeb llafur ar y Bwrdd, gan ychwanegu:

> "I don't think that we would be seeking to direct the role of the organisation, or its direction, just giving things that might be of interest to the committee, especially in the context of the social partnership that we're trying to develop in Wales."[80]

**99.** Pan ofynnwyd iddo i ba raddau y mae'r gofyniad am fwyafrif anweithredol er mwyn cael cworwm yn briodol ar gyfer SAC, dywedodd Cadeirydd SAC:

> "It's very important that we do protect the majority of non-executive members for the quorum for decision making. However, the current legislation says that other members cannot be present, and that is the phrase. We've taken extensive legal advice and, currently, I can't even

[78] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraffau 15-16

[79] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 249

[80] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 260

> have them in the room as observers—they actually have to leave. So, what we actually need to do is to take that specific quorum rule off the face of the Act. Then, we can devise pragmatical rules and place them in our procedural rules, but still on the diversity of contributions from all members of the WAO board, particularly the employee members, and, if necessary, make one of the employee members an observer for a meeting in order to preserve the majority. They wouldn't have to leave the room, they can fully contribute, but the actual decision making, and, if necessary, voting, would preserve the majority of non-executive members. So, the Act needs to remove the 'cannot be present' and then pragmatic rules will be placed in our procedural rules."[81]

**100.** Holodd y Pwyllgor yr Archwilydd a SAC pa mor briodol y byddai i'r Bwrdd gynllunio ei reolau ei hun o ran cworwm. Teimlai Cadeirydd Bwrdd SAC y dylid ymddiried yn y Bwrdd oherwydd iddo gael ei benodi i roi hyder i'r Pwyllgor yn llywodraethiant SAC, a bod y Pwyllgor wedi craffu ar y Bwrdd hwnnw drwy'r amcangyfrif, yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, a'r cynllun blynyddol.[82]

**101.** Tynnodd yr Archwilydd sylw hefyd at awydd y Cynulliad i weld cyflogeion yn cael eu cynrychioli'n gryf ar y Bwrdd pan fyddai'n craffu ar hynt y ddeddfwriaeth, gan nodi bod y rheolau cworwm yn arwain at achlysuron pan fydd llai o gyfraniad gan gyflogeion.[83]

**102.** Cadarnhaodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC y byddai angen nodi'r rheolau cworwm yn rheolau gweithdrefnol SAC, sy'n ofynnol o dan Ran 7 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013.[84]

## Barn y Pwyllgor

**103.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y materion y mae'r Bwrdd yn eu hwynebu o ran cworwm, mae hefyd yn ymwybodol o'r egwyddorion y tu ôl i'r trefniadau cyfredol o ran cworwm. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn gwbl briodol nodi gofynion cworwm yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Archwilydd a SAC. Mae annibyniaeth y Bwrdd ar yr Archwilydd yn greiddiol er mwyn sicrhau bod gwaith

---

[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 221

[82] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 250

[83] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 251

[84] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 257

archwilio yng Nghymru yn drylwyr ac yn cael ei graffu'n briodol, a rhaid i'r cworwm adlewyrchu a galluogi hyn.

**104.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth sy'n awgrymu bod strwythur presennol y Bwrdd yn enghraifft o arfer da, er gwaethaf y materion o ran cworwm. Ni fyddai'n gost-effeithiol creu rôl anweithredol ychwanegol ym marn y Pwyllgor.

**105.** Siomwyd y Pwyllgor o glywed bod gofyn i aelod sy'n gyflogai adael cyfarfod o'r Bwrdd os na fydd cworwm er mwyn sicrhau bod mwyafrif o aelodau anweithredol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhy gaeth yn hyn o beth ym marn y Pwyllgor. Cred y Pwyllgor y dylid datrys hyn drwy alluogi unrhyw aelod gweithredol i esgusodi ei hun heb adael y cyfarfod, yn debyg i'r hyn a wneir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fel rhan o'i rôl oruchwylio a llywodraethu, bydd y Pwyllgor yn disgwyl cael gwybod yn rheolaidd gan SAC sut y mae'r trefniadau cworwm newydd yn gweithio'n ymarferol.

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylid cadw'r gofyniad presennol mewn deddfwriaeth, sef na fydd cworwm mewn cyfarfod oni bai bod mwyafrif o aelodau anweithredol, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth annibynnol a darparu her adeiladol i'r cyfarwyddwyr gweithredol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid diwygio paragraff 28(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i ganiatáu i aelodau gweithredol aros yn y cyfarfod ond i beidio â phleidleisio os na fydd mwyafrif o aelodau anweithredol yn bresennol.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 5

A ydych yn cytuno y dylid cadw gofyniad presennol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o ran cworwm mewn deddfwriaeth, sef y gofyniad am fwyafrif o aelodau anweithredol?

### Cwestiwn 6

Os na fydd mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod o fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn aelodau anweithredol, a ydych yn cytuno y dylid caniatáu i aelod gweithredol barhau'n bresennol mewn cyfarfod, ond heb yr hawl i bleidleisio, er mwyn bodloni'r gofyniad o ran cworwm?

**Cwestiwn 7**

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 13 o'r Bil Drafft?

# 6. Adroddiadau Interim

**Y ddarpariaeth bresennol**

Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd a Chadeirydd SAC baratoi adroddiad interim o leiaf unwaith y flwyddyn (paragraff 3(3) o Atodlen 2).

Ym mharagraff 3(4), nodir:

*"Rhaid i adroddiad interim gynnwys (ymhlith pethau eraill) asesiad o'r canlynol—*

*(a) y graddau y mae arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi bod yn gyson â'r cynllun blynyddol a baratowyd am y flwyddyn o dan adran 25;*

*(b) y graddau y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun."*

Caiff y Cynulliad hefyd ofyn i'r Archwilydd a Chadeirydd SAC lunio adroddiadau interim ychwanegol unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Y mater dan sylw

**106.** Nododd y cyn-Archwilydd yn ei lythyr at y Pwyllgor ym mis Mehefin 2018[85] nad oes gan y Cynulliad na'r cyhoedd lawer o ddiddordeb mewn adroddiadau interim. Ym mis Mawrth 2018, soniodd Alison Gerrard, aelod o Fwrdd SAC, am faterion yn ymwneud â llunio adroddiadau interim a'u gwerth, gan awgrymu bod y broses yn defnyddio lefel anghymesur o adnoddau. Aeth ymlaen i ddweud:

> "…each report costs about £20,000 to produce, and we do feel that actually isn't a really good use of public money, because there doesn't actually seem to be a major amount of interest in them. Certainly, when we've prepared them for the Assembly, they've generally been noted but there has been no real in-depth discussion. When we put

[85] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, 21 Mehefin 2018

> them on our website, in 2015-16, I think we had 12 page visits. It was slightly better the following year with 37, but actually that includes internal hits as well, so that probably isn't public interest. So, it is quite a lot of money for a low level of interest." [86]

**107.** Yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, nododd yr Archwilydd a SAC fod adroddiad interim pellach wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2018, lle'r oedd 66 o ymweliadau â'r dudalen yn ystod y pythefnos ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, a'u bod "yn dal i ystyried y gofyniad yn anghymesur". [87]

## Y sefyllfa mewn swyddfeydd archwilio eraill

**108.** Cadarnhaodd Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon nad oes gofyniad statudol i'w swyddfa lunio adroddiadau interim.[88]

**109.** Nododd Archwilydd Cyffredinol yr Alban nad yw'n ofynnol iddi hi nac Audit Scotland lunio adroddiadau interim, ond bod ganddynt gytundeb i fynychu Comisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban o leiaf ddwywaith y flwyddyn.[89]

## Yr ateb a awgrymwyd

Mae'r Archwilydd a SAC yn awgrymu y dylid dileu'r gofynion ar gyfer adroddiadau interim.

**110.** Awgrymodd y cyn-Archwilydd ym mis Gorffennaf 2018 y byddai'r Pwyllgor yn dal yn gallu ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Cyfrifyddu SAC (yr Archwilydd) lunio adroddiad interim:

> "It does seem to me that I cannot conceive of an accounting officer refusing a request from the Finance Committee to deliver a report. That seems to me…outside the accounting officer's memorandum."[90]

**111.** Amcangyfrifodd SAC y byddai dileu'r gofyniad i lunio adroddiadau interim yn arwain at osgoi costau o £20,000. Mae hyn wedi'i seilio'n bennaf ar amser staff

[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Mawrth 2018, paragraff 140

[87] Tystiolaeth ysgrifenedig: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

[88] Tystiolaeth ysgrifenedig: Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon

[89] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2019, paragraff 345

[90] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Gorffennaf 2018, paragraff 223

ar gyfer gwaith ymchwil a drafftio, adolygiad yr uwch-reolwyr, adolygiad y Bwrdd, cyfieithu a chyhoeddi.[91]

## Y dystiolaeth

**112.** Awgrymodd ACCA fod adroddiadau interim yn ddefnyddiol ar gyfer llywio gwaith goruchwylio seneddol (yn ogystal â bod yn ddisgyblaeth ddefnyddiol i SAC), ond nododd os nad oeddent yn cael eu defnyddio gan y senedd berthnasol y gellid dileu'r gofyniad.[92]

**113.** Dywedodd CIPFA wrth y Pwyllgor: “in terms of the ongoing scrutiny of their work, it seems proportionate enough to me to want an interim view on how they're doing”.[93]

**114.** Cadarnhaodd y Gweinidog:

> “The Welsh Government, like the Finance Committee, merely notes the interim reports. So, we would have no concerns about that particular aspect being removed.”[94]

**115.** Roedd yr Archwilydd yn cytuno â barn y cyn-Archwilydd a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor, pe bai'r gofyniad statudol yn cael ei ddileu, y byddai'n darparu'r wybodaeth os byddai’n cael cais i wneud hynny:

> “My view is that the interim report is not particularly valuable for you as a committee in holding us to account. It generates an administrative burden on us, and I think that's wasteful. But I see myself as an officer of this Parliament, and I can't contemplate not furnishing you or other committees with information that you require to help assess our work.”[95]

---

[91] Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynigion ar gyfer Bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Mehefin 2018, paragraff 3.16

[92] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

[93] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 66

[94] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 280

[95] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 290

**116.** Ychwanegodd yr Archwilydd, pe bai Archwilydd dilynol yn llai rhesymol, fod gan y Pwyllgor bwerau sylweddol i fynnu gweld dogfennaeth a gwybodaeth.[96]

## Barn y Pwyllgor

**117.** Mae'r Pwyllgor yn derbyn barn yr Archwilydd a SAC bod y gofyniad i lunio adroddiad interim yn flynyddol yn defnyddio lefel anghymesur o amser ac adnoddau ac mae'n nodi bod nifer yr ymweliadau â thudalen yr adroddiad interim ar y we yn dangos nad oes llawer o ddiddordeb ynddo. Mae'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad interim fel rhan o'i waith craffu blynyddol ond, er mor addysgiadol ydyw ym marn y Pwyllgor, mae amseriad a ffocws y gwaith craffu hwnnw yn golygu bod mwy o drafod ynghylch y dogfennau eraill fel arfer. Yn yr un modd, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad yw'n gwneud mwy na nodi'r adroddiad interim.

**118.** Ar ôl pwyso a mesur, mae'r Pwyllgor yn derbyn bod yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn gwrthbwyso'r anfanteision o beidio â gwneud adroddiad interim yn ofynnol mwyach. Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor yn gwybod y gall ofyn am wybodaeth a thystiolaeth gan yr Archwilydd a SAC, mae'n credu bod gwerth cadw'r gofyniad i lunio adroddiad interim ar gais y Cynulliad mewn deddfwriaeth. Ni fyddai'r Pwyllgor yn rhagweld y byddai'r Cynulliad yn gwneud cais am adroddiad interim fel mater o drefn.

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn awgrymu bod y gofyniad ym mharagraff 3(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i lunio adroddiad interim o leiaf unwaith y flwyddyn, yn cael ei newid i ddarparu gofyniad i lunio adroddiad interim (fel y'i diffinnir ar hyn o bryd) os bydd y Cynulliad yn gwneud cais am hynny.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 8

A ydych yn cytuno na ddylai fod yn ofynnol mwyach i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru lunio adroddiad interim o leiaf unwaith y flwyddyn, ond y dylid cynnwys gofyniad mewn deddfwriaeth i lunio adroddiad interim ar gais y Cynulliad?

[96] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 292

**Cwestiwn 9**

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 16 o'r Bil Drafft?

# 7. Gosod adroddiadau a chyfrifon

**Y ddarpariaeth bresennol**

Mae paragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd baratoi datganiadau cyfrifon SAC ac i gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys (ac yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys[97] (y Llawlyfr)). Mae'r Llawlyfr hefyd yn gofyn am adroddiad blynyddol i gyd-fynd â'r cyfrifon.

Mae paragraff 35(2)(b) o Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilwyr allanol osod copi ardystiedig o'r cyfrifon (ynghyd ag adroddiad yr archwilydd) gerbron y Cynulliad.

Mae paragraff 3(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd a Chadeirydd SAC baratoi adroddiad blynyddol ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd a SAC yn ystod y flwyddyn.

Mae paragraff 3(6) o Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd a Chadeirydd SAC osod yr adroddiad blynyddol ar y cyd gerbron y Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol.

## Y mater dan sylw

**119.** Nododd y cyn-Archwilydd fod gofynion sy'n gorgyffwrdd yn achosi dryswch ac yn arwain at ddiffyg eglurder o ran gosod y dogfennau gerbron y Cynulliad.[98]

**120.** Esboniodd Alison Gerrard, Aelod o Fwrdd SAC:

> "The requirement at the moment is for the auditor general and the WAO to report on our performance, which has to be laid. We also have to produce a similar report as part of our accounts, as part of the Treasury requirements and the FReM—to actually produce an annual report. The way we get around that is actually to produce one report,

[97] Trysorlys EM, y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol

[98] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, 21 Mehefin 2018

> but actually, we lay it twice. So, it's laid once by the auditor general and the chair, and secondly, then, by our external auditors—both laying the same report. So, just in terms of bureaucracy, if we could just simplify that requirement, that would also be helpful."[99]

## Y sefyllfa mewn swyddfeydd archwilio eraill

**121.** Nododd Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon nad oes gofyniad iddo ef na'r cadeirydd lunio adroddiad blynyddol ac mai'r Adran Gyllid sy'n gyfrifol am wneud hynny. Esboniodd:

> "This is an anachronism and an area where our own legislation needs tidied up, as I should be able to lay my Office's audited accounts in the NI Assembly, rather than being dependent upon the Department of Finance."[100]

## Yr ateb a awgrymwyd

Mae'r Archwilydd a SAC yn cynnig symleiddio'r trefniadau drwy:

1. ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd a Chadeirydd SAC ddarparu eu hadroddiad blynyddol i archwilydd allanol SAC heb fod yn hwyrach na phum mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol; a

2. ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol osod yr adroddiad wrth osod y cyfrifon blynyddol.

**122.** Eglurodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC fod terfyn amser o bum mis wedi'i gynnwys fel bod yr adroddiad blynyddol wedi'i gysoni â'r terfyn amser ar gyfer y cyfrifon.[101]

**123.** Nid yw archwilwyr allanol cyfredol SAC, sef RSM UK Audit LLP, wedi codi unrhyw wrthwynebiadau i'r ateb a awgrymwyd.[102]

[99] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Mawrth 2018, paragraff 142

[100] Tystiolaeth ysgrifenedig: Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon

[101] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 294

[102] Gohebiaeth ag RSM UK Audit LLP, 10 Hydref 2019 a 16 Hydref 2019

## Barn y Pwyllgor

**124.** Mae'r Pwyllgor yn nodi mai natur weinyddol sydd i'r drefn o osod adroddiad a chyfrifon blynyddol yr Archwilydd a SAC gan yr Archwilydd/SAC a'i archwilwyr allanol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn cefnogi symleiddio'r system gyfredol, drwy newid bach i'r gofynion statudol ar gyfer gosod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

**Casgliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylid symleiddio'r darpariaethau yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 mewn perthynas â gosod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon i

- alluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu eu hadroddiad blynyddol i archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru heb fod yn hwyrach na phum mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol; ac
- yn dilyn hynny, ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol osod yr adroddiad wrth osod y cyfrifon blynyddol.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 10

A ydych yn cytuno y dylid newid y gofyniad i osod yr adroddiad blynyddol (ar arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru) ym mharagraff 3(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol osod yr adroddiad wrth osod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon?

### Cwestiwn 11

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 15 o'r Bil Drafft?

# 8. Terfynau amser o ran ardystio

**Y darpariaethau presennol**

Mae adran 10 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd gyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio sy'n rhagnodi'r ffordd y mae swyddogaethau penodol yr Archwilydd yn cael eu cyflawni.

Mae nifer o ddeddfiadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd osod copi o gyfrifon ardystiedig ac adroddiad corff a archwilir heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.

## Y mater dan sylw

**125.** Mae Cod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd roi cyfle i gyrff a archwilir a thrydydd partïon roi sylwadau ar ganfyddiadau archwilio (er mai'r Archwilydd sy'n penderfynu ar gynnwys a gofynion y Cod hwnnw).[103]

**126.** Fe allai'r gofyniad statudol i osod copi o gyfrifon ardystiedig ac adroddiad rhai cyrff a archwilir heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl iddynt gael eu cyflwyno wrthdaro â'r Cod Ymarfer Archwilio, os oes angen i'r Archwilydd roi digon o amser i bartïon perthnasol ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad.

## Y dystiolaeth

**127.** Mae'r Pwyllgor wedi archwilio materion yn ymwneud â'r terfyn amser o bedwar mis ar gyfer gosod cyfrifon pan fu'n archwilio'r oedi wrth osod Cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru 2015-16.[104] Yn dilyn problemau gyda chyfrifon y sefydliad hwnnw, daeth y cyn-Archwilydd i'r casgliad:

> Unfortunately, I have concluded that it is not possible to meet this deadline without incurring a significant risk to fairness to third parties. My audit has encountered some significant issues concerning contracts entered into by NRW, and it is necessary in order to be fair to

[103] Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mai 2018, tudalen 23

[104] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad ar yr oedi o ran cyflwyno cyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015-16 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mai 2017

> those concerned outside NRW (as well as NRW) that I provide reasonable opportunity to comment on my findings in line with the principles of natural justice.[105]

**128.** Yn adroddiad y cyn-Archwilydd a oedd wedi'i gynnwys yng nghyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru 2015-16, nododd:

> I am advised by my legal adviser that given the conflicting statutory duties, it was appropriate to give more prominence to the requirements of the 2013 Act and the Code, and I have therefore completed my audit accordingly. It was important to complete the investigatory process properly, including seeking comments from the audited body and relevant third parties to satisfy the requirements of the Code and also to ensure that the audit conclusions are sufficiently rigorous.[106]

**129.** Nid yw'n glir pa fecanweithiau sydd ar gael yn y ddeddfwriaeth bresennol pe bai gofyniad i ohirio gosod cyfrifon ac nid yw'r weithdrefn ar gyfer gwneud hynny wedi'i nodi mewn deddfwriaeth. Yn yr un modd, nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi unrhyw gamau cosbi pe hynny'n digwydd na sut y gellir amrywio terfyn amser.

**130.** Yn ystod hynt Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, cytunodd y Cynulliad ar welliant i fynd i'r afael â'r gofynion croes a osodwyd ar yr Archwilydd. Os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd osod copi o gyfrifon ardystiedig ac adroddiad yr Ombwdsmon gerbron y Cynulliad cyn pen pedwar mis, mae paragraff 18 o Atodlen 1 yn caniatáu i'r Archwilydd osod copi o'r cyfrifon ardystiedig ac adroddiad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd esbonio i'r Cynulliad pam na ellir bodloni'r terfyn amser o bedwar mis a bwrw ymlaen i osod y cyfrifon ardystiedig ac adroddiad cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**131.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gyflwyno cyfrifon a oedd yn ddigon cadarn i alluogi'r Archwilydd a'i dîm i osod copi gyda'r Cynulliad o fewn pedwar mis. Os na fydd hyn yn digwydd,

[105] Llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 14 Rhagfyr 2016

[106] Cyfoeth Naturiol Cymru Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16, tudalen 44

mae'r Gweinidog yn pryderu y bydd y wybodaeth yn y cyfrifon "yn dod yn llai perthnasol po hwyaf y bydd y cyfnod rhwng diwedd y flwyddyn a chyhoeddi".[107]

**132.** Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn derbyn y gallai fod amgylchiadau lle bydd oedi'n digwydd ac mae'n fodlon bod yn fwy hyblyg o dan yr amgylchiadau hynny. Byddai'r Gweinidog o leiaf yn disgwyl i'r Swyddog Cyfrifyddu perthnasol ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dan y fath amgylchiadau.[108]

**133.** Dywedodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC fod y cymal lliniarol a fewnosodwyd yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn ddatrysiad da iawn.[109]

## Yr ateb a awgrymwyd

Os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd osod copi o gyfrifon ardystiedig ac adroddiad cyrff penodol a archwilir gerbron y Cynulliad cyn pen pedwar mis, dylid diwygio'r deddfiad perthnasol er mwyn caniatáu i'r Archwilydd osod copi o'r cyfrifon ardystiedig ac adroddiad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis. Byddai hyn yn cynnwys gofyniad i'r Archwilydd esbonio i'r Cynulliad pam na ellir bodloni'r terfyn amser o bedwar mis a bwrw ymlaen i osod y cyfrifon ardystiedig ac adroddiad cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**134.** Mae'r archwiliadau a ganlyn yn ddarostyngedig i'r rheol pedwar mis:

- Comisiynydd Plant Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Estyn
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

[107] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 27 Mehefin 2019
[108] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 27 Mehefin 2019
[109] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 337

- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cronfa Gyfunol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Llywodraeth Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru.
- Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru
- Cyfrifon Llywodraeth gyfan Cymru

## Barn y Pwyllgor

**135.** Yn sgil y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 i ganiatáu i'r Archwilydd ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, mae'r Pwyllgor yn cynnig y dylid cynnwys yr un ddarpariaeth yn y deddfiadau sy'n weddill i sicrhau bod mecanwaith cyson i fynd i'r afael â'r gofynion sy'n gwrthdaro.

**Casgliad 10.** O ran y deddfiadau presennol sy'n nodi terfyn amser o bedwar mis i Archwilydd Cyffredinol Cymru ardystio a gosod copi o gyfrifon ac adroddiad corff a archwilir, mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid eu diwygio fel a ganlyn:

- i ganiatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis;
- i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru esbonio i'r Cynulliad pam na ellir bodloni'r terfyn amser o bedwar mis; ac

- i’w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod y cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

**Cwestiwn 12**

A ydych yn cytuno y dylid diwygio’r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ardystio a gosod cyfrifon ac adroddiad corff a archwilir o fewn pedwar mis:

- i ganiatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis;
- i’w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru esbonio i'r Cynulliad pam na ellir bodloni’r terfyn amser o bedwar mis; ac
- i’w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod y cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol?

**Cwestiwn 13**

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 17 ac Atodlen 1 i'r Bil Drafft?

# 9. Materion sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Penodi archwilwyr cyfrifon SAC

**Y ddarpariaeth bresennol**

Mae paragraff 34(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad benodi person yn archwilydd cyfrifon SAC, a phennu telerau penodi'r person hwnnw.

Mae paragraff 34(2) yn caniatáu i SAC argymell person i'w benodi.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn dirprwyo cyfrifoldeb am benodi archwilwyr cyfrifon SAC i'r Pwyllgor Cyllid.[110]

### Y mater dan sylw

**136.** Mae'r Pwyllgor wedi penodi archwilwyr ddwywaith ers i Ddeddf 2013 gael ei chyflwyno (ym mis Rhagfyr 2014 a mis Hydref 2018). Ar bob achlysur mae'r Pwyllgor wedi awdurdodi SAC i gynnal ymarfer caffael a chyflwyno'r cynigydd llwyddiannus i gael ei gymeradwyo a'i benodi gan y Cynulliad, gyda'r gwaith o oruchwylio'r broses yn cael ei ddirprwyo i swyddogion Comisiwn y Cynulliad.

**137.** Fodd bynnag, mae'r Archwilydd a SAC wedi awgrymu bod cymhlethdodau cytundebol sylweddol yn codi am fod yr awdurdod penodi (y Cynulliad) a'r cleient (SAC) yn gyrff gwahanol. Mae hyn yn golygu bod angen paratoi trefniadau cytundebol tairochrog, gan gynnwys cytundeb ategol i gynnwys, er enghraifft, darparu indemniad pe bai SAC yn methu â thalu tâl yr archwilydd.[111]

### Y dystiolaeth

**138.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn, nododd Comisiwn y Cynulliad:

[110] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 18.10(vi)
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

> "...mae Tîm Caffael Comisiwn y Cynulliad wedi rhoi sicrwydd ynghylch proses y ddau dendr diwethaf mewn perthynas â phenodi archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw'r broses hon wedi bod yn rhy feichus na chymryd gormod o amser o ran llwyth gwaith i'r tîm Caffael."[112]

**139.** Roedd llythyr dilynol Comisiwn y Cynulliad at y Pwyllgor yn nodi bod angen i'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol "ymgymryd â chryn dipyn o waith mewn perthynas â phenodi archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru". Roedd hyn oherwydd natur dairochrog y trefniant ac roedd yn cynnwys, ar gyfer proses benodi 2018, gyngor cyfreithiol allanol arbenigol a gostiodd £19,500.[113]

**140.** Roedd y llythyr hefyd yn cydnabod y gallai fod yn werth ystyried a ddylid diwygio Deddf 2013 er mwyn symleiddio'r trefniadau ar gyfer penodi archwilwyr SAC. [114]

## Yr ateb a awgrymwyd

> Mae'r Archwilydd a SAC yn awgrymu y byddai'n synhwyrol gwneud darpariaeth i'r broses o benodi archwilydd SAC fod yn fater cytundebol rhwng SAC a'r archwilydd (gan gynnwys telerau'r penodiad a monitro perfformiad), ond gan wneud y penodiad yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad.

**141.** Nid yw archwilwyr allanol cyfredol SAC, sef RSM UK Audit LLP, wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad i'r ateb a awgrymwyd.[115]

## Barn y Pwyllgor

**142.** Mae'r trefniadau cytundebol tairochrog cyfredol rhwng SAC, Comisiwn y Cynulliad a'r archwilwyr penodedig yn gymhleth. Mae hyn wedi arwain at wariant sylweddol ar gyngor cyfreithiol, ac ni ystyrir mai dyna'r defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn deall yr egwyddorion y tu ôl i'r darpariaethau deddfwriaethol ac mae'n credu ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol bod gan y Cynulliad, drwy'r Pwyllgor, berthynas ag archwilwyr SAC, a'i fod yn craffu arnynt ac yn cymeradwyo eu penodiad.

---

[112] Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiwn y Cynulliad

[113] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad, 27 Mehefin 2019

[114] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad, 27 Mehefin 2019

[115] Gohebiaeth ag RSM UK Audit LLP, 10 Hydref 2019 a 16 Hydref 2019

**143.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y gellir cyflawni bwriad y darpariaethau yn Neddf 2013 drwy broses newydd sy'n caniatáu i SAC benodi ei archwilwyr allanol yn uniongyrchol, gan gynnal rôl i'r Cynulliad wrth gymeradwyo'r penodiad hwnnw a chytuno ar y telerau a'r amodau cysylltiedig a'r broses a ddilynir gan SAC wrth gaffael ei harchwilwyr.

**144.** Yn ymarferol, ni fyddai'r dull diwygiedig hwn yn effeithio fawr ddim ar y broses gyfredol, yn yr ystyr na fyddai Comisiwn y Cynulliad yn rhan o'r trefniadau cytundebol rhwng SAC a'i harchwilwyr mwyach. Fodd bynnag, dylai'r dull diwygiedig alluogi arbedion o ran amser a chost i SAC a Chomisiwn y Cynulliad.

**Casgliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn cynnig diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i ganiatáu i Swyddfa Archwilio Cymru benodi ei harchwilwyr allanol, ar yr amod bod y Cynulliad yn cymeradwyo:

- Y penodiad,
- telerau'r penodiad, ac
- y dull caffael.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 14

A ydych yn cytuno y dylai penodiad archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru fod yn fater cytundebol rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilydd, ac y dylai'r penodiad (a'r telerau a'r amodau cysylltiedig) fod yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad?

### Cwestiwn 15

yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 14 o'r Bil Drafft?

## Penodi aelodau anweithredol SAC a phenodi Cadeirydd SAC

**Y ddarpariaeth bresennol**

Mae Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad benodi pum aelod anweithredol o SAC, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored.

Mae penodiad aelod anweithredol yn para hyd at bedair blynedd ac ni ellir penodi person fwy na dwywaith (paragraff 6 o Atodlen 1).

Mae paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Gadeirydd SAC gael ei benodi o blith yr aelodau anweithredol. Caiff y Cynulliad ymestyn penodiad, sy'n cyfrif fel penodiad ar wahân at ddibenion nifer y penodiadau a ganiateir a nodir ym mharagraff 6 o Atodlen 1.

### Y mater dan sylw

**145.** Os bydd aelodau anweithredol yn dymuno cael eu hailbenodi am ail dymor yn y swydd (caiff swyddogion anweithredol wasanaethu am ddau dymor o hyd at bedair blynedd), mae'n ofynnol i ddeiliaid y swyddi hyn ddilyn proses lawn o gystadleuaeth ag ymgeiswyr allanol, tra bod modd i'r Cynulliad ymestyn penodiad deiliad swydd y Cadeirydd am ail dymor. Fodd bynnag, mae'r Cadeirydd (yn rhinwedd swydd y Cadeirydd fel aelod anweithredol) hefyd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ailbenodi cyffredinol ar gyfer aelodau anweithredol. Felly, mae strwythur y darpariaethau hyn yn creu cyfle i ddehongli'r gofynion sy'n ymwneud ag ailbenodi'r Cadeirydd mewn ffyrdd gwahanol.

### Y sefyllfa mewn swyddfeydd archwilio eraill

**146.** Esboniodd Prif Swyddog Gweithredol Audit Scotland fod Comisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban (SCPA), sy'n gyfrifol am wneud y penodiadau ar gyfer aelodau anweithredol o Fwrdd Audit Scotland, wrthi'n adolygu ei drefniadau.[116]

**147.** Fel rhan o'i adolygiad, bu'r SCPA yn ystyried rôl aelodau annibynnol presennol y Bwrdd wrth gymryd rhan ym mhrosesau penodi'r dyfodol. Er bod

[116] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2019, paragraff 323

Deddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (Yr Alban) 2000 (Deddf PFA 2000) yn nodi'n glir bod y tri aelod annibynnol yn cael eu penodi gan yr SCPA, nododd yr adolygiad nad yw hynny'n atal aelodau'r Bwrdd rhag cymryd rhan yng nghamau cynharach y broses recriwtio.[117]

**148.** Argymhellodd yr adolygiad y dylai aelodau'r Bwrdd barhau i gyfrannu at brosesau penodi drwy gael cyfle i wneud sylwadau ar fanylebau rôl a hysbysebion drafft cyn i'r drafftiau terfynol gael eu cymeradwyo gan yr SCPA. Fodd bynnag, daeth yr SCPA i'r casgliad:

> "Whilst some SCPA members recognised that there may be some potential benefits of Board members participating in the recruitment of independent Board members, all considered this would be contrary to established practice for parliamentary appointments which reflects the terms of the PFA Act. There was unanimous agreement that the next Board Chair should be appointed by the SCPA only."[118]

## Y dystiolaeth

**149.** O ran recriwtio aelodau anweithredol o SAC, nododd yr Archwilydd a SAC:

> "Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch y swyddogaeth y gallai Cadeirydd, sydd yn y swydd, ei chwarae yn y broses ar gyfer penodi ac ailbenodi aelodau anweithredol y WAO. Mae barn Cadeirydd bwrdd ynghylch y sgiliau sydd eu hangen, yn enwedig o ran cydbwysedd sgiliau sy'n ategu ei gilydd, yn ffactor bwysig mewn sicrhau cynnal bwrdd sy'n gweithio'n dda."[119]

[117] Comisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban, Adroddiad ar yr Adolygiad o Fwrdd Archwilio'r Alban a Chomisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban, 26 Mehefin 2019, paragraff 43

[118] Comisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban, Adroddiad ar yr Adolygiad o Fwrdd Archwilio'r Alban a Chomisiwn Archwilio Cyhoeddus yr Alban, 26 Mehefin 2019, paragraff 46

[119] Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

**150.** Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn mynd ymlaen i ddweud:

> "...rydym yn falch bod dull pragmatig wedi cael ei fabwysiadu – yn cynnwys y Cadeirydd yn y broses o ddewis a hefyd yn diogelu annibyniaeth y Pwyllgor a'r Cynulliad wrth benderfynu ar benodiad."[120]

**151.** Ategwyd hyn gan Gadeirydd SAC:

> "The recruitment: it's vital that this process is led and overseen by the Finance Committee, but, as you know, the legislation doesn't recognise the role of the WAO chair at the moment."[121]

**152.** O ran ailbenodi aelodau anweithredol, nododd Comisiwn y Cynulliad:

> "Gallai fod yn werth ystyried a fyddai'n briodol egluro darpariaethau perthnasol Deddf 2013 mewn perthynas ag aelodau presennol o'r Bwrdd sy'n dymuno gwasanaethu am ail dymor yn olynol."[122]

**153.** Nododd Comisiwn y Cynulliad hefyd "ei bod yn bosibl dehongli'r darpariaethau hynny yn Neddf 2013 sy'n ymdrin ag ymestyn penodiad Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd gwahanol".[123]

## Barn y Pwyllgor

**154.** Ar ôl cynnal nifer o ymarferion recriwtio ers cychwyn Deddf 2013, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid symleiddio'r darpariaethau cyfredol sy'n ymwneud â phenodi ac ailbenodi aelodau anweithredol o SAC a Chadeirydd SAC.

**155.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen gwneud y ddeddfwriaeth yn gliriach er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl ymestyn penodiad y Cadeirydd am ail dymor o hyd at bedair blynedd hefyd ar gael i'r aelodau anweithredol, ar yr amod eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau'n dderbyniol.

**156.** Er bod y Pwyllgor o'r farn y dylid rhoi cyfle i bob aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd) ymestyn ei dymor yn y swydd am ail dymor o bedair blynedd heb ymgymryd â phroses recriwtio lawn, dylai unrhyw estyniad i benodiad fod yn amodol ar berfformiad effeithiol yr unigolyn ac ystyriaethau o

[120] Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

[121] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 312

[122] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad, 27 Mehefin 2019

[123] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad, 27 Mehefin 2019

ran sefydlogrwydd y Bwrdd. Gan fod llwyddiant y Bwrdd yn dibynnu ar arbenigedd a phrofiad ei aelodau, efallai y bydd angen i'r Cynulliad ystyried amrywio hyd y cyfnodau penodi, neu beidio ag adnewyddu rhai penodiadau, er mwyn sicrhau y gall aelodau newydd ddysgu'r hyn sydd ei angen cyn i aelodau profiadol ymadael.

**157.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod gwerth cyfraniad y Cadeirydd wrth benodi aelodau anweithredol y Bwrdd, nid yw wedi'i argyhoeddi bod angen ffurfioli'r rhan a chwaraeir gan y Cadeirydd mewn deddfwriaeth.

**Casgliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn cynnig diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn bosibl ymestyn penodiad aelod anweithredol sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd am ail dymor o hyd at bedair blynedd.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 16

A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn bosibl ymestyn penodiad aelod anweithredol sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd am ail dymor o hyd at bedair blynedd?

### Cwestiwn 17

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 7, adran 8 ac adran 9 o'r Bil Drafft?

## Y gofyniad i ymgynghori ar rai agweddau ar y broses benodi

**Y darpariaethau presennol**

Mae adran 7(2) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â'r Prif Weinidog cyn gwneud trefniadau o ran tâl cydnabyddiaeth ar gyfer yr Archwilydd.

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â'r Prif Weinidog o ran penodi Cadeirydd (paragraff 5(2)), y trefniadau arfaethedig o ran tâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd (paragraff 7(2)) ac unrhyw gynigion i ddod â phenodiad Cadeirydd i ben (paragraff 12(2).

Mae paragraff 9(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â "pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus" ar y trefniadau o ran tâl a thelerau eraill sy'n ymwneud â phenodi aelodau anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd).

Mae adran 5(3) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi rhestr o swyddi neu drefniadau cyfyngedig y byddai angen i gyn-Archwilydd ymgynghori â'r Cynulliad yn eu cylch cyn eu derbyn neu ymrwymo iddynt ar ôl gadael ei swydd.

### Ymgynghori â'r Prif Weinidog

**158.** Wrth ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad (y pwyllgor cyfrifol bryd hynny) â'r cyn-Brif Weinidog ynglŷn â phenodi Cadeirydd SAC yn 2013, nododd y Prif Weinidog nad oedd ganddo "unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch yr ymgeisydd a argymhellwyd".[124]

**159.** Pan ofynnwyd iddo am y trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer yr aelodau anweithredol a'r Cadeirydd pan sefydlwyd Bwrdd SAC yn 2013, dywedodd y cyn-Brif Weinidog fod y tâl cydnabyddiaeth arfaethedig ar gyfer y Cadeirydd a'r Aelodau yn rhesymol yn ei farn ef.[125]

**160.** Cyn recriwtio'r Archwilydd cyfredol, ymgynghorodd y Pwyllgor â'r cyn-Brif Weinidog ynglŷn â'r trefniadau arfaethedig o ran tâl ar gyfer y swydd ym mis Awst 2017. Yn ei ymateb, cadarnhaodd y Prif Weinidog ei fod yn fodlon ar y trefniadau talu arfaethedig.

### Ymgynghori â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus

**161.** Nid oedd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil ACC yn nodi pwy oedd y "person priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus".[126] Yn 2013, penderfynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y pwyllgor

---

[124] Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pedwerydd Cynulliad), Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2013, paragraff 38

[125] Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pedwerydd Cynulliad), Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2013, paragraff 22

[126] Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol

cyfrifol ar y pryd) ei bod yn rhesymol ymgynghori â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru. Roedd hyn ar ôl cael cadarnhad gan swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus nad oedd y penodiadau dan sylw yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd.[127]

**162.** Bob tro y mae'r Cynulliad wedi penodi neu ailbenodi aelodau anweithredol mae wedi ymgynghori â Chyfarwyddwr Llywodraethu Llywodraeth Cymru, fel person priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad.

**Swyddi cyfyngedig o dan adran 5(3)**

**163.** Ystyriodd y Pwyllgor y gofyniad i gyhoeddi rhestr o swyddi cyfyngedig o dan adran 5(3) o Ddeddf 2013 yn 2017, cyn penodi'r Archwilydd cyfredol, a phenderfynodd beidio â nodi unrhyw ofynion. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, sy'n nodi bod yn rhaid cyhoeddi rhestr, cyhoeddodd y Pwyllgor ddogfen i gadarnhau nad oedd unrhyw gyfyngiadau o'r fath.

## Y dystiolaeth

**164.** Pan ofynnwyd iddi a yw'r gofyniad i ymgynghori â'r Prif Weinidog ynglŷn â phenodiad a chydnabyddiaeth y Cadeirydd yn briodol, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "I think that that is a particular area where it might be best for the First Minister not to have a role in the appointment of a chair, for example, because I think that we've established an important principle about the independence of the organisation, and I think we'd be comfortable if the requirement was not there."[128]

**165.** Cwestiynodd Comisiwn y Cynulliad hefyd a oedd y gofynion i ymgynghori ar drefniadau cydnabyddiaeth a thelerau eraill yn ymwneud â phenodiad aelodau anweithredol yn briodol a nododd y materion ymarferol o ran gwybod pwy sy'n cyfrif fel unigolyn priodol sydd â goruchwyliaeth o benodiadau cyhoeddus:

---

[127] Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pedwerydd Cynulliad), Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2013, paragraff 21

[128] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 254

> "Mae swyddogion y Comisiwn wedi cael anawsterau wrth ddewis ymgynghorai addas er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn. Felly, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a ddylid diwygio'r gofyniad, neu ei ddileu'n gyfan gwbl." [129]

**166.** Wrth ymateb i gwestiwn ar briodoldeb y darpariaethau ymgynghori yn Neddf 2013, dywedodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC:

> "The consultation provisions don't seem entirely appropriate. I don't think it's inappropriate for the Assembly to undertake consultation and research. I think it's perfectly capable of doing that, when needed, without requiring something on the face of statute. But what strikes me as rather unusual is that the First Minister is, essentially, part of an audited body and is having a say, uniquely among audited bodies, in the appointment of the chair who oversees the auditor."[130]

**167.** Mewn perthynas â chyhoeddi dogfen yn cadarnhau nad yw'r Cynulliad wedi nodi unrhyw swyddi na threfniadau cyfyngedig o dan adran 5(3), awgrymodd Comisiwn y Cynulliad:

> "Efallai y bydd y Pwyllgor felly'n dymuno ystyried y manteision a fyddai ynghlwm wrth wneud y gofyniad i gyhoeddi rhestr yn ddewisol, er mwyn osgoi gorfod cyhoeddi dogfen debyg o werth cyfyngedig yn y dyfodol."[131]

## Barn y Pwyllgor

**168.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y gofynion i ymgynghori yn feichus ac nid ydynt yn gwbl briodol. Yn achos y gofyniad i ymgynghori â'r Prif Weinidog, nid yw'n glir beth y mae hynny'n ei gyflawni ac mae'r Pwyllgor hefyd yn cwestiynu pa mor briodol ydyw i gorff a archwilir gan SAC gael mewnbwn mor uniongyrchol i'r broses o benodi'r Cadeirydd. Mynegodd y Gweinidog y farn hon hefyd, gan awgrymu y gallai fod yn fwy priodol dileu'r darpariaethau i ymgynghori â'r Prif Weinidog.

---

[129] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad, 27 Mehefin 2019

[130] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 317

[131] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad, 27 Mehefin 2019

**169.** Yn dilyn cadarnhad gan swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn 2013 nad yw'r penodiadau dan sylw yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd, mae'r Pwyllgor wedi ceisio ymgynghori â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru er mwyn bodloni'r gofyniad i ymgynghori â "pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus". Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn credu mai dyna fwriad y darpariaethau ac mae'n cwestiynu pa mor briodol ydyw i ymgynghori â swyddogion corff a archwilir gan SAC. Yn absenoldeb unigolyn priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn cynnig dileu'r gofyniad penodol hwn o'r ddeddfwriaeth.

**170.** Mae'n amlwg o'r broses ddiweddaraf ar gyfer recriwtio Archwilydd y gall y gofyniad i gyhoeddi rhestr o swyddi neu drefniadau cyfyngedig o dan adran 5(3) arwain at waith gweinyddu diangen o ran y trefniadau hynny. Er y gallai'r Pwyllgor fod am nodi cyfyngiadau yn y dyfodol, nid yw'n gwneud synnwyr cyhoeddi dogfen heb unrhyw wybodaeth ynddi pan na fydd unrhyw gyfyngiadau i'w nodi.

**Casgliad 13.** O ran y gofynion i ymgynghori â'r Prif Weinidog o ran penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, y trefniadau o ran tâl y Cadeirydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, a dod â phenodiad y Cadeirydd i ben, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylid dileu'r gofynion hyn ar y Cynulliad, a hynny er mwyn amddiffyn annibyniaeth y rolau hynny.

**Casgliad 14.** Gan na chaiff penodiadau anweithredol i Fwrdd SAC eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylid dileu'r gofyniad i ymgynghori "â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus" ynglŷn â threfniadau talu cydnabyddiaeth a thelerau eraill o ran penodi aelodau anweithredol SAC a'r Cadeirydd a chyflwyno darpariaeth yn lle hynny sy'n caniatáu i'r Cynulliad ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn ei farn.

**Casgliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid diwygio adran 5(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi rhestr o swyddi neu drefniadau cyfyngedig y byddai angen i gyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â'r Cynulliad yn eu cylch cyn eu derbyn neu ymrwymo iddynt ar ôl gadael y swydd, ond dim ond os bydd unrhyw gyfyngiadau o'r fath wedi'u nodi.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 18

A ydych yn cytuno y dylid dileu’r gofyniad i'r Cynulliad ymgynghori â'r Prif Weinidog ynghylch y materion a ganlyn:

- penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru;
- y trefniadau o ran tâl y Cadeirydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru; a
- dod â phenodiad y Cadeirydd i ben?

### Cwestiwn 19

A ydych yn cytuno y dylid dileu'r gofyniad i'r Cynulliad ymgynghori â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus ynglŷn â threfniadau talu cydnabyddiaeth a thelerau eraill sy’n ymwneud â phenodiad?

### Cwestiwn 20

A ydych yn cytuno y dylid cynnwys darpariaeth gyffredinol sy'n caniatáu i'r Cynulliad ymgynghori ag unrhyw berson sy’n briodol yn ei farn cyn arfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru?

### Cwestiwn 21

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 6, adran 10 ac adran 11 o'r Bil Drafft?

### Cwestiwn 22

A ydych yn cytuno y dylid diwygio adran 5(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013 i’w gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi rhestr o swyddi neu drefniadau cyfyngedig y byddai angen i gyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â'r Cynulliad yn eu cylch cyn eu derbyn neu ymrwymo iddynt ar ôl gadael y swydd, ond dim ond os bydd unrhyw gyfyngiadau o’r fath wedi’u nodi?

**Cwestiwn 23**

Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 5 o'r Bil Drafft?

# 10. Materion o ran deddfwriaeth archwilio ehangach yng Nghymru

## Y diffyg dyletswydd ar yr Archwilydd i gyrraedd casgliad gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog

### Y cefndir

**171.** Yn unol â Deddf 2004, mae'n ofynnol i'r Archwilydd fod yn fodlon bod corff llywodraeth leol (adran 17(2)(d)) neu gorff iechyd (adran 61(3)(b)) wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau (cyfeirir at hyn weithiau fel casgliad neu farn gwerth am arian). Mewn cyferbyniad, nid oes unrhyw ofyniad o'r fath mewn perthynas â chyrff llywodraeth ganolog (Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a rhai cyrff eraill fel Comisiwn y Cynulliad).

**172.** Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), yn nodi o ran Gweinidogion Cymru:

> The Auditor General **may** carry out examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which the Welsh Ministers and the Counsel General have used their resources in discharging their functions.[132]

**173.** Mae hyn yn debyg i'r geiriad ar gyfer Comisiwn y Cynulliad.[133]

**174.** Pan fo'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol roi casgliad gwerth am arian, **rhaid** iddo asesu a yw'r corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

### Y mater dan sylw

**175.** Awgrymodd y cyn-Archwilydd fod absenoldeb y gofyniad "yn golygu bod y gwaith i gynorthwyo craffu cyrff llywodraeth ganolog yn cael ei ganiatáu gan statud i fod yn llai helaeth a thrylwyr na'r hyn a wneir yn y GIG a llywodraeth leol"

[132] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 135(1)

[133] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 140(1)

a bod "ystyriaeth ddewisol yn fwy agored i her nag ystyriaeth a wneir yn ystod dyletswydd statudol". [134]

## Y dystiolaeth

**176.** Dywedodd Pennaeth Cyfraith a Moeseg SAC wrth y Pwyllgor:

> Unlike the NHS and local government, there is no requirement as part of the audit to come to a VFM conclusion—that's being satisfied that there are appropriate arrangements for securing economy, efficiency and effectiveness. That strikes us as rather undesirable in that it means that there is, essentially, a lower standard applied in central Government than in the NHS and local government.[135]

**177.** Awgrymodd CIPFA y gellid cryfhau'r ddeddfwriaeth i gynnwys mwy o gyfrifoldeb am gasgliadau gwerth am arian yng nghyrff llywodraeth ganolog:

> "There probably are more points where it [audit legislation in Wales] might be strengthened rather than streamlined. An example of that is in relation to the area of value for money. It doesn't appear in the Welsh legislation that the audit office have much responsibility for central Government bodies in that regard. They do in terms of health and local government, and I suppose from an outsider's point of view, a taxpayer/stakeholder, if you've got whatever it is—£20 billion or £30 billion—coming into the Welsh consolidated fund and then being allocated out by the Welsh Government and the Assembly, yet there isn't a value-for-money remit for the audit office over that, that seems strange."[136]

**178.** Gwnaed y pwynt hwn gan CLILC hefyd.

> "One gap in the current arrangements is that while the WAO looks at value for money and performance across the health and local government sectors, there are currently no arrangements for the WAO

[134] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017

[135] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 330

[136] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 25

to do the same for central government bodies. This is something that should be remedied."[137]

## Yr ateb a awgrymwyd

**179.** Dywedodd y cyn-Archwilydd y byddai angen diwygio Deddf 2006 ar gyfer Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i fewnosod darpariaethau sy'n ymwneud â dyletswydd i fod yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian. Ar gyfer cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, byddai angen diwygiadau tebyg i ystod o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- Deddf Safonau Gofal 2000;
- Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006;
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (ar gyfer Estyn);
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;
- Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013;
- Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992;
- Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012;
- Deddf Cymwysterau Cymru 2015;
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Siarteri Brenhinol Cyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon.[138]

[137] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[138] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017

## Absenoldeb darpariaeth benodol mewn statud ar gyfer barn rheoleidd-dra ymhlith llawer o gyrff llywodraeth ganolog

### Y cefndir

**180.** Barn rheoleidd-dra yw barn ynghylch a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio, neu wedi cael ei ddefnyddio, at ddibenion cymeradwy a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Gwneir hyn fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon.

**181.** Mae Cod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd yn amlinellu sail barn rheoleidd-dra:

> Lle mae cyrff yn destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy rinwedd gosod eu cyfrifon (neu gyfrifon eu rhiant gorff) gerbron y Cynulliad, rhaid i'm harchwilwyr gynllunio a chynnal gwaith archwilio ar fy rhan er mwyn mynd i'r afael â'r cysyniad o reoleidd-dra a chaniatáu i mi roi barn ar reoleidd-dra'r trafodion y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy. Rheoleidd-dra, fel y nodir yn 'Nodyn Ymarfer 10: Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig' a gyhoeddwyd gan y Fforwm Archwilio Cyhoeddus a'i gymeradwyo gan y Cyngor Adrodd Ariannol, yw'r cysyniad bod yn rhaid i drafodion a adlewyrchir yn natganiadau ariannol endid a archwilir fod yn unol â fframwaith perthnasol awdurdodau. Mae fframweithiau o'r fath yn cynnwys:
>
> a deddfwriaeth awdurdodi;
>
> b awdurdodau seneddol, gan gynnwys awdurdodau'r Cynulliad Cenedlaethol, fel cynigion cyllidebol a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol; ac
>
> c awdurdodau gweinyddol, fel dirprwyaethau, a chanllawiau, fel cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.[139]

[139] Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mai 2018, tudalen 16

**182.** Mae'r Cod Ymarfer Archwilio yn mynd ymlaen i amlinellu pwysigrwydd barn rheoleidd-dra i "reolaeth ddemocrataidd cyllid cyhoeddus".[140]

**183.** Er enghraifft, mae Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol yr Archwilydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018-19, yn cynnwys 'Barn ar reoleidd-dra', sy'n nodi:

> Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.[141]

## Y mater dan sylw

**184.** Mae yna nifer o sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru lle nad oes darpariaeth benodol ar gyfer barn rheoleidd-dra.

**185.** Awgrymodd y cyn-Archwilydd fod absenoldeb darpariaethau penodol mewn statud ar gyfer barn rheoleidd-dra ymhlith llawer o gyrff llywodraeth ganolog yn golygu bod elfen sylfaenol o reolaeth y Cynulliad ar wariant llywodraeth ganolog ar goll o'r statud mewn perthynas â chyrff o'r fath. Nododd mai "un o swyddogaethau allweddol y Cynulliad Cenedlaethol yw cymeradwyo, yn dilyn craffu, gynigion cyllideb i awdurdodi defnydd y llywodraeth o adnoddau". [142]

**186.** Aeth ymlaen i ddweud, er mwyn cwblhau'r cylch rheoli, bod angen i'r Cynulliad gael adroddiadau ynghylch a yw'r adnoddau a bleidleisiwyd ganddo wedi'u defnyddio yn unol â'i fwriadau. Cadarnhaodd hefyd fod barnau rheoleidd-dra yn cael eu darparu mewn perthynas â'r holl gyrff a noddir, er gwaethaf yr hepgoriadau yn Neddf 2004. [143]

**187.** Nododd ei fod wedi parhau arfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o ddarparu barn ar reoleidd-dra mewn perthynas â'r holl gyrff a noddir er gwaethaf yr hepgoriadau oherwydd bod hyn "yn amlwg yn ofynnol" am y

---

[140] Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mai 2018, tudalen 16

[141] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018-19

[142] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017

[143] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017

rhesymau a nodiwyd yn ei lythyr[144] (fel yr amlinellwyd uchod) ac mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â safonau proffesiynol.

## Y cyrff yr effeithir arnynt

**188.** Nododd y cyn-Archwilydd y cyrff yr effeithir arnynt:

- Cyngor Gofal Cymru;
- Cyngor y Gweithlu Addysg;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cymwysterau Cymru.[145]

**189.** Effeithir hefyd ar Gyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon gan nad oes darpariaethau perthnasol wedi'u cynnwys yn y Siarteri Brenhinol a'u sefydlodd.[146]

## Yr ateb a awgrymwyd

**190.** Yn debyg i'r ateb sy'n ymwneud â chasgliadau gwerth am arian, byddai angen diwygio'r ddeddfwriaeth a amlinellwyd uchod gan fewnosod y darpariaethau perthnasol.

### Gofynion gosod sy'n gorgyffwrdd

**191.** Tynnodd y cyn-Archwilydd sylw at ofynion deddfwriaethol sy’n gorgyffwrdd o ran gosod adroddiadau blynyddol yr Archwilydd a chyrff amrywiol, a allai arwain at osod yr un ddogfen sawl gwaith.[147] Mae hyn yn debyg i'r materion a

[144] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017
[145] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017
[146] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017
[147] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017

nodwyd ym Mhennod 7 ynglŷn â chyfrifon ac adroddiadau blynyddol yr Archwilydd a SAC.

## Cyfyngiadau ar bwerau Cymru o ran paru data

### Y cefndir

**192.** Mae SAC yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, sef ymarfer paru data bob dwy flynedd sy'n helpu i ganfod ac atal twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ledled y DU. Dywedodd yr Archwilydd fod y Fenter Twyll Genedlaethol wedi amcangyfrif bod y sector cyhoeddus yn colli £662 miliwn bob blwyddyn drwy dwyll yn y DU (ac eithrio twyll treth).[148]

**193.** Yn y ddogfen, Menter Twyll 2018-19: Manylebau Data, amlinellodd yr Archwilydd a SAC:

> "Ymarfer paru data yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae wedi'i chynnal bob dwy flynedd ers 1996 a, hyd yma, fe'i defnyddiwyd i ganfod twyll a gordaliadau gwerth £1.69 biliwn ledled y DU."[149]

**194.** Mae'r Archwilydd yn disgrifio paru data yn ei God Ymarfer Paru Data:

> "Mae ymarferion paru data yn cymharu setiau o ddata, megis y gyflogres neu gofnodion buddiannau un corff yn erbyn cofnodion eraill a ddelir gan yr un corff neu gorff arall er mwyn gweld i ba raddau y maent yn cyfateb. Mae hyn yn golygu y gellir nodi achosion posibl o hawliadau a thaliadau twyllodrus. Lle y caiff data eu paru, gall nodi bod anghysondeb y mae angen ymchwilio ymhellach iddo; nid yw o reidrwydd yn darparu tystiolaeth o dwyll. Lle na chaiff unrhyw ddata eu paru, ni chaiff y pwerau paru data unrhyw effaith berthnasol ar yr unigolion dan sylw. Fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol, mae'r cyrff sy'n cymryd rhan yn cael adroddiad ar yr achosion o baru sy'n nodi anghysondebau yn y data a ddelir ac y gallant fod yn arwydd o dwyll. Dylai'r cyrff sy'n cymryd rhan olrhain ac ymchwilio i achosion o baru o'r fath, er mwyn canfod achosion o dwyll, gordaliadau a thandaliadau a

[148] Adroddiad Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru – 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2018, tudalen 6

[149] Menter Twyll 2018-19: Manylebau Data, Awst 2018

gwallau eraill a, lle y bo'n briodol, gymryd camau adfer a/neu ddiweddaru eu cofnodion yn unol â hynny."[150]

## Data

**195.** Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n anghywir. Mae'r data a ystyriwyd yn ymarfer paru data 2018-19 yn cynnwys:

- Y gyflogres;
- Yswiriant;
- Trwyddedau;
- Pensiynau;
- Cleifion Cartrefi Gofal â Chymorth Preifat;
- Cludiant/Teithio rhatach;
- Hanes Credydwyr Masnach;
- Data sefydlog Credydwyr Masnach;
- Cyllidebau Personol;
- Y Dreth Gyngor;
- Y Gofrestr Etholiadol;
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**196.** Yn Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru – Adroddiad 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2018, nodir bod yr ymarfer diweddaraf wedi canfod ac atal twyll a gordaliadau yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru o dros £5.4 miliwn (o'i gymharu â £4.4 miliwn yn yr ymarfer blaenorol).

[150] Cod Ymarfer Paru Data, Tachwedd 2018

**197.** Mae enghreifftiau o'r mathau o faterion a ddatgelwyd drwy'r Fenter wedi'u cynnwys yn nhabl 1:

**Tabl 1: enghreifftiau o'r mathau o faterion y mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi'u datgelu**

| Setiau data a barwyd | Problemau a ddatgelwyd |
|---|---|
| Budd-dal tai yn erbyn hawliadau budd-dal tai | Unigolion sy'n hawlio budd-dal tai mewn mwy nag un eiddo. |
| Budd-dal tai, rhent tai a chofnodion cyflogres yn erbyn data mewnfudo | Unigolion sydd mewn cyflogaeth neu'n derbyn budd-daliadau cyhoeddus nad oes ganddynt hawl i fyw neu weithio yn y DU. |
| Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn y gofrestr etholiadol | Unigolion sy'n hawlio yn dwyllodrus mai nhw yw'r unig feddiannydd sy'n oedolyn mewn eiddo er mwyn cael gostyngiad o 25 y cant i'w treth gyngor. |
| Taliadau i gartref gofal preswyl yn erbyn cofnodion unigolion sydd wedi marw. | Taliadau parhaus i gartref gofal preswyl ar ôl i'r preswylydd farw. |
| Taliadau credydwyr yn erbyn taliadau credydwyr | Mae cyrff cyhoeddus wedi talu ddwywaith am yr un nwyddau neu wasanaeth ar ôl derbyn anfonebau dyblyg. |
| Cofnodion deiliaid bathodynnau glas yn erbyn cofnodion unigolion sydd wedi marw | Defnydd amhriodol o fathodynnau glas, pan fo deiliad trwydded wedi marw, ond nad yw'r awdurdod lleol wedi cael ei hysbysu. |

Ffynhonnell: Yr Archwilydd a SAC Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru – Adroddiad 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2018 (Hydref 2018)

**198.** Mae rhagor o wybodaeth am faterion a ddatgelwyd ac astudiaethau achos y Fenter Twyll Genedlaethol i'w chael yn yr adroddiad.

## Y cyfranogwyr

**199.** Cymerodd 47 o gyrff sector cyhoeddus Cymru ran yn ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol (1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2018). Roedd y cyfranogwyr gorfodol yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol;
- Awdurdodau heddlu;
- Awdurdodau tân;
- Cyrff y GIG.

**200.** Cymerodd Llywodraeth Cymru, rhai cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a SAC ran yn y Fenter yn wirfoddol. Mae manylion cyflogres y mwyafrif helaeth o staff sector cyhoeddus a'u harchwilwyr allanol wedi'u cynnwys yn y Fenter ar gyfer paru data i ganfod ac atal twyll.

**201.** Mae'r Cynulliad yn cytuno ar gyllid ar gyfer y Fenter fel rhan o'r cyllid a roddir i'r Archwilydd a SAC o Gronfa Gyfunol Cymru fel yr amlinellwyd yn eu Hamcangyfrif a Chynllun Ffioedd blynyddol (yr un diweddaraf sydd ar gael yw'r Amcangyfrif ar gyfer 2020-2012). Mae hyn yn golygu na chodir tâl ar gyfranogwyr am gymryd rhan, sef rhywbeth a groesawyd gan y cyfranogwyr yn ôl yr Archwilydd a SAC yn eu hamcangyfrif.

## Y darpariaethau presennol:

**202.** Mae adran 64A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi pŵer yr Archwilydd i gynnal ymarferion paru data:

(1) The Auditor General for Wales may conduct data matching exercises.

(2) A data matching exercise is an exercise involving the comparison of sets of data to determine how far they match (including the identification of any patterns and trends).

(3) The power in subsection (1) is exercisable for the purpose of assisting in the prevention and detection of fraud in or with respect to Wales.

(4) That assistance may, but need not, form part of an audit.

(5) A data matching exercise may not be used to identify patterns and trends in an individual's characteristics or behaviour which suggest nothing more than his potential to commit fraud in the future.

(6) In the following provisions of this Part, reference to a data matching exercise is to an exercise conducted or arranged to be conducted under this section.

**203.** Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau pellach mewn perthynas â pharu data, gan gynnwys:

- Adran 64B, Darparu data yn orfodol (Mandatory provision of data);
- Adran 64C, Darparu data yn wirfoddol (Voluntary provision of data);
- Adran 64D, Datgelu canlyniadau paru data (Disclosure of results of data matching);
- Adran 64E, Cyhoeddi (Publication);
- Adran 64F, Ffioedd ar gyfer paru data (Fees for data matching);
- Adran 64G Cod ymarfer paru data (Code of data matching practice).

## Y mater dan sylw

**204.** Dywedodd y cyn-Archwilydd fod ei bwerau paru data ar ei hôl hi bellach o gymharu â phwerau ei gymheiriaid yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Awgrymodd y dylid ymestyn y diben a ganiateir o ran paru data (yng nghyswllt y Fenter) i gyd-fynd â'r rhai mewn perthynas â phwerau cyrff yn Lloegr, sy'n gallu cynorthwyo i atal a chanfod troseddau heblaw twyll; dal ac erlyn troseddwyr; atal a chanfod camgymeriadau a gwallau; ac, adennill dyledion sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus. Awgrymodd hefyd y dylid newid y darpariaethau ar gyfer darpar gyfranogwyr gorfodol, er mwyn cynnwys pob corff a archwilir gan yr Archwilydd.[151]

[151] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017

**205.** Mae'r Archwilydd a SAC yn amlinellu tair risg sy'n gysylltiedig â'r pwerau paru data fel y maent:

- "ni fydd modd rhedeg ymarferiadau cydweddu data cyflawn ar draws y DU yng Nghymru;
- ni fydd manteision ariannol posibl paru data, er mwyn canfod camgymeriadau ac anghywirdebau ac i fod o gymorth i adennill dyledion, ar gael yng Nghymru;
- ni fydd modd sylweddoli'r potensial o sicrhau arbedion ychwanegol drwy gynnwys cyfranogwyr mandadol newydd."[152]

## Deddfwriaeth yng ngweddill y DU

**206.** Mae Deddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (Yr Alban) 2000 yn darparu ar gyfer pwerau tebyg i Ddeddf 2004, ond mae hefyd yn caniatáu ar gyfer paru data at ddibenion helpu i ganfod ac atal troseddau heblaw twyll, ac ar gyfer helpu i ddal ac erlyn troseddwyr.

**207.** Mae Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 yn Lloegr yn cynnwys darpariaeth at ddibenion ymarferion paru data i'w hehangu gan reoliadau er mwyn cwmpasu cynorthwyo yn y meysydd a ganlyn:

- canfod ac atal troseddau heblaw twyll,
- dal ac erlyn troseddwyr,
- canfod ac atal gwallau ac anghywirdebau, ac
- adennill dyled sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus.

**208.** Mae deddfwriaeth Gogledd Iwerddon yn debyg i'r hyn sy'n berthnasol i gyrff yn Lloegr ond nid yw'n cynnwys canfod ac atal gwallau ac anghywirdebau. O ran y ddeddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon, nododd y cyn-Archwilydd:

> Fodd bynnag, dyma'r gryfaf yn y DU o ran ei gwneud yn ofynnol i gyrff gyfranogi mewn ymarferion paru data, oherwydd ei bod yn galluogi Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff a archwilir ganddo (heblaw am gyrff dynodedig

[152] Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

> "rhoi cydweithredu Gogledd/De ar waith") neu archwilydd llywodraeth leol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer paru yn hytrach na bod y pŵer hwnnw yn berthnasol i restr ddiffiniedig o gyrff yn unig. I Gymru, mae'r rhestr o gyfranogwyr gorfodol o'r fath yn annigonol, am ei bod yn gyfyngedig i lywodraeth leol a chyrff iechyd. [153]

**209.** Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth y DU bŵer dirprwyedig, o dan adran 64H(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i ddiwygio'r Ddeddf honno drwy orchymyn i ychwanegu at un o'r dibenion penodedig a ganlyn at gylch gwaith paru data yr Archwilydd.

a. i gynorthwyo â'r gwaith o ganfod ac atal troseddau (heblaw twyll) yng Nghymru neu mewn perthynas â hi;

b. i gynorthwyo i ddal ac erlyn troseddwyr yng Nghymru neu mewn perthynas â hi;

c. i gynorthwyo i adennill dyled sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

**210.** Caiff Llywodraeth y DU hefyd, drwy orchymyn o dan yr adran honno (64H(3)), ychwanegu corff cyhoeddus o Gymru (fel y'i diffinnir yn adran 12(3)) at y rhestr o gyrff yn adran 64B(2) o'r Ddeddf (h.y. llywodraeth leol a chyrff y GIG) y caiff yr Archwilydd ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu data iddo at ddibenion paru.

## Barn y Pwyllgor

**211.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod cynigion yr Archwilydd a SAC mewn perthynas â meysydd eraill o ddeddfwriaeth archwilio, mae'r materion a nodwyd wedi'u cynnwys mewn ystod eang o ddeddfwriaeth ac yn mynd y tu hwnt i'r cylch gorchwyl ar gyfer gwaith craffu ar ôl deddfu'r Pwyllgor yn Neddf 2013.

**Casgliad 16.** Nid yw'r Pwyllgor yn bwriadu bwrw ymlaen â chynigion sy'n ymwneud â deddfwriaeth archwilio cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn y Bil Drafft hwn, gan fod hwn yn ddarn sylweddol o waith, ond mae'n barod i gael rhagor o dystiolaeth ar y materion hyn fel rhan o'i ymgynghoriad ar y Bil Drafft.

[153] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru, 5 Ebrill 2017

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 24

A ydych yn teimlo y dylai'r Bil Drafft gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn:

- y diffyg dyletswydd ar yr Archwilydd i gyrraedd casgliad gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog;
- absenoldeb darpariaeth benodol mewn statud ar gyfer barn rheoleidd-dra ymhlith llawer o gyrff llywodraeth ganolog;
- gofynion gosod sy'n gorgyffwrdd;
- pwerau paru data Cymru?

## MATERION ERAILL

### Cwestiwn 25

A fydd unrhyw rai o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol (er enghraifft, costau neu fanteision) i chi neu'ch sefydliad?

Os felly, a allwch ddisgrifio'r goblygiadau ariannol posibl i chi neu'ch sefydliad a rhoi amcangyfrif o'r gost (os yw'n bosibl i chi wneud hynny)?

### Cwestiwn 26

A oes gennych unrhyw beth arall i'w nodi neu unrhyw sylwadau cyffredinol eraill o ran Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 neu Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft y Pwyllgor?

# 11. Materion anstatudol

## Dyrannu arian ffioedd ymhlith cyrff llywodraeth ganolog a chyrff y GIG

**212.** Roedd y llythyr a anfonwyd gan yr Archwilydd a SAC yn 2018[154] yn cynnwys cynnig i ddefnyddio ffioedd tybiannol yn lle'r ffioedd archwilio presennol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol (Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru).

**213.** Byddai'r cynnig yn newid y broses codi ffioedd fel bod SAC yn cael mwy o arian o Gronfa Gyfunol Cymru, yn hytrach na chael ffioedd gan gyrff penodol. Gan na fyddai'r cynnig hwn yn newid statudol, ni chafodd ei gynnwys yn y Bil drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

**214.** Cafodd y cynnig ei gynnwys gyntaf ym mhapur trafod yr Archwilydd a SAC[155] a'r adroddiad dilynol 'Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru - achos dros newid'[156], a oedd yn casglu barn rhanddeiliaid ar symud i drefn ffioedd tybiannol ar gyfer cyrff penodol. Roedd yr adroddiad yn nodi:

> "Er bod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi'r ateb a ffefrir gennym, mae'n bwysig nodi nad oedd y ddau randdeiliad mwyaf, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei gefnogi. Heb gynnal cysylltiad clir rhwng gwaith archwilio a'r costau archwilio yr eir iddynt, dywedodd Llywodraeth Cymru fod llai o gymhelliant i'r sector cyhoeddus geisio newid."[157]

**215.** Roedd yr ymatebion a gawsom gan randdeiliaid yn awgrymu y gallai fod mwy o gymhlethdod o'r system hon, y byddai angen iddi fod yn niwtral o ran cost wrth ei gweithredu ac y byddai bwlch o ran herio'r ffi archwilio. Roedd

[154] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, 21 Mehefin 2018

[155] Swyddfa Archwilio Cymru: Papur Trafod: Symleiddio Trefn Ffioedd Gymhleth, Mehefin 2017

[156] Swyddfa Archwilio Cymru: Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru – achos dros newid, Hydref 2017

[157] Swyddfa Archwilio Cymru: Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru – achos dros newid, Hydref 2017, paragraff 38

pryderon hefyd y gallai'r arbedion fod yn fach iawn ac y gallai addasiadau i gymorth grant fynd y tu hwnt i werth y ffi.[158]

**216.** Yn dilyn hynny, nododd yr Archwilydd a SAC fod y cynnig hwn yn cael ei ailystyried:

> "Rydym wedi bod yn ystyried cynnal peilot ar y trefniant gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ond wedi canfod na fyddai'r dull yn gwneud dim ond symud y baich gweinyddol oddi ar Swyddfa Archwilio Cymru i'r Ombwdsmon, o ran gwneud yr addasiadau cyfrifo angenrheidiol. Byddwn felly yn ailystyried a ddylid symud ymlaen â'r cynnig hwn, na fyddai, p'un bynnag, yn mynd i'r afael ond â ffracsiwn o'r baich gweinyddol yr ydym yn ei wynebu gan nad yw'r rhan fwyaf o gyrff a archwilir yn cael eu hariannu'n uniongyrchol."[159]

## Y dystiolaeth

**217.** Bu'r Pwyllgor yn trafod gyda'r rhanddeiliaid yr opsiwn o weithredu model ffioedd archwilio tybiannol ar gyfer cyrff a ariennir yn ganolog, fel y'i defnyddir mewn swyddfeydd archwilio eraill yn y DU.

**218.** Roedd ACCA yn cefnogi'r syniad o ffioedd tybiannol, gan nodi mai ansawdd y wybodaeth ariannol a gyhoeddir gan gyrff sy'n destun archwiliad a ddylai fod yn brif ystyriaeth.[160] Roedd CLlLC hefyd yn gefnogol i ffioedd tybiannol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru.[161]

**219.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrth y Pwyllgor nad oedd yn siŵr beth fyddai'r fantais o gael strwythur ffioedd tybiannol gan nad yw'n costio llawer i dalu ffioedd gwirioneddol i'r archwilydd.[162]

---

[158] Swyddfa Archwilio Cymru: Y drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth yng Nghymru – achos dros newid, Hydref 2017, paragraff 39

[159] Tystiolaeth ysgrifenedig: Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

[160] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

[161] Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[162] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 167

**220.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe:

> "I would have concerns that the notional fee might risk breaking that transparency between the plan and the cost. And I think if that model were to be pursued, I think we would need an awful lot more information about how it was actually going to be operationalised and what it meant for corporate governance and financial governance if it were implemented."[163]

**221.** Er bod CIPFA yn cydnabod bod dull ffioedd tybiannol yn gwella rhywfaint ar effeithlonrwydd y broses, ychwanegodd y cynrychiolydd:

> "I wouldn't over-egg them, though, and say that they're massive savings because it's saving some transactional work. So, there will be savings, but it's more important to ensure that your audit scrutiny is there because it's, as I say, still a valid charge to a revenue budget. So, it shouldn't detract from that."[164]

**222.** Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi newid i ffioedd tybiannol am waith archwilio, gan nodi pedwar rheswm pam y mae'r broses o gytuno ar ffioedd yn bwysig:

- Mae'n cefnogi datblygu'r cynllun archwilio. Mae'r cleient yn glir am y gweithgareddau a'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan yr archwilwyr.
- Mae'n helpu'r sefydliad i ddangos gwerth am arian.
- Mae'n cefnogi SAC i gynllunio'r defnydd o adnoddau'n well a lle mae oedi'n digwydd i adennill y costau ychwanegol angenrheidiol.
- Mae'n helpu'r cyrff hynny sy'n cael eu harchwilio i fod yn fwy disgybledig yn eu harchwiliadau; mae codi tâl caled ac uniongyrchol yn cynnig cymhelliant i ddelio ag archwiliadau yn effeithiol.[165]

[163] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 168

[164] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraffau 37 a 39

[165] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 27 Mehefin 2019

**223.** Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai fod baich gweinyddol wrth adennill ffioedd gan gleientiaid, mae'r Gweinidog yn credu bod y ddisgyblaeth o gytuno ac adennill ffioedd yn "gwrthbwyso unrhyw anfantais".[166]

**224.** Ategodd y Gweinidog farn Llywodraeth Cymru pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor:

> "...the issue of notional charging, which was the only area really where we had a difference of views, I think, has been resolved in the sense that the Wales Audit Office now has looked at the experience of Scotland and Northern Ireland and decided that it's not something that they particularly would wish now to pursue, mostly because it would just serve to shift the administrative burden from the WAO to the audited bodies".[167]

**225.** Pan ofynnodd y Pwyllgor i'r Archwilydd a SAC pam oeddent yn ailystyried symud i system ffioedd tybiannol ar gyfer cyrff a ariennir yn ganolog, esboniodd Cyfarwyddwr Cyllid SAC:

> "Our original proposal was based on the legislation in Scotland and England and Northern Ireland, but I think we hadn't fully appreciated the complexity and difficulties we'd face in moving from where we are now, with hard fee charging in Wales, to one of notional fee charging, whereas, in the other parts of the UK, they had notional fee charges from the outset. As you heard from the other directors of finance last week, processing an invoice is not a big deal to them, but, if we changed to notional fee charging, they would have to do journal entries to create a notional charge and a notional credit on their balance sheet, and, as soon as we realised that, we thought it's worth a rethink and pulling back from that proposal."[168]

## Barn y Pwyllgor

**226.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Archwilydd a SAC wedi ailystyried eu cynigion i gyflwyno ffioedd tybiannol yn lle'r ffi archwilio ar gyfer cyrff a ariennir yn

[166] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 27 Mehefin 2019

[167] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 227

[168] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2019, paragraff 341

ganolog, ar ôl nodi na fyddai hyn yn gwneud dim mwy na throsglwyddo'r baich gweinyddol o SAC i'r corff a ariennir yn ganolog.

# Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft

[AR GYFER YMGYNGHORI]

CYNNWYS

**RHAN 1**

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg

**RHAN 2**

DIWYGIADAU I DDEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

2 Ffioedd am ddarparu gwasanaethau
3 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd
4 Cynllun ar gyfer codi ffioedd
5 Cyflogaeth etc cyn-Archwilydd Cyffredinol a thalu cydnabyddiaeth
6 Gofynion ymgynghori
7 Penodi Aelodau anweithredol SAC
8 Penodi cadeirydd SAC
9 Cyfnod penodi ac ailbenodi
10 Trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer SAC
11 Telerau penodi
12 Dod â phenodiadau i ben
13 Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC
14 Cyfrifon SAC ac Archwilwyr SAC
15 Gosod adroddiadau etc. gerbron y Cynulliad Cenedlaethol
16 Adroddiadau interim

**RHAN 3**

CYFFREDINOL

17 Terfynau amser ar gyfer gosod cyfrifon ardystiedig
18 Diwygiadau canlyniadol
19 Trefniadau trosiannol
20 Teitl byr a dod i rym

Atodlen 1 — Terfynau amser ar gyfer gosod ac adrodd ar y cyfrifon
Atodlen 2 — Diwygiadau canlyniadol
Atodlen 3 — Trefniadau trosiannol

# Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft

[AR GYFER YMGYNGHORI]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3) mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac at ddibenion cysylltiedig.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## CYFLWYNIAD

### 1 Trosolwg

Mae prif ddarpariaethaur Ddeddf hon yn diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3) ("Deddf 2013") i—

(a) dileur gwaharddiad ar Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC") rhag codi ffioedd syn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y maer ffi'n ymwneud â hi (adran 2);

(b) ei gwneud yn ofynnol i SAC gynnwys mewn cynllun ffioedd ddarpariaeth syn ceisio sicrhau bod swm y ffioedd a godir am yr holl waith a wneir o dan ddeddfiadau penodedig, o'u cymryd gydai gilydd a chymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras iw holl wariant mewn cysylltiad â'r person hwnnw am y gwaith hwnnw (adrannau 3 a 4);

(c) ei gwneud yn ofynnol ir Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr o swyddi, cytundebau a threfniadau eraill y mae angen ymgynghori arnynt cyn i gyn-Archwilydd Cyffredinol eu cychwyn neu ymrwymo iddynt dim ond pan for Cynulliad Cenedlaethol wedi nodi unrhyw swydd, unrhyw gytundeb neu unrhyw drefniant (adran 5);

(d) dileu neu ddiwygio gofynion ymgynghori mewn perthynas â phenodir Archwilydd Cyffredinol ac aelodau SAC (gan gynnwys y cadeirydd) ac ychwanegu disgresiwn ir Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â phersonau y mae o'r farn eu bod yn briodol cyn arfer swyddogaethau mewn perthynas âr Archwilydd Cyffredinol neu SAC (adran 6);

(e) gwneud darpariaeth syn ymwneud â phenodi aelodau SAC(gan gynnwys y cadeirydd), eu hailbenodi a dod â'u penodiad i ben, yn ogystal â thalu cydnabyddiaeth iddynt a'u telerau penodi (adrannau 7 i 12);

(f) diwygior gofynion cworwm mewn perthynas â chyfarfodydd SAC (adran 13);

(g) gwneud darpariaeth syn ymwneud â phenodi archwilwyr SAC fel ei bod yn ofynnol i SAC, yn hytrach na'r Cynulliad Cenedlaethol, benodi ei harchwilwyr (adran 14);

(h) cydgysylltu'r gwaith o osod yr adroddiad blynyddol ar arfer swyddogaethaur Archwilydd Cyffredinol a SAC â'r gwaith o osod cyfrifon archwiliedig SAC (adran 15);

(i) dileur gofyniad ir Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC baratoi a gosod adroddiadau interim ar y cyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar arfer eu swyddogaethau (adran 16);

(j) gwneud darpariaeth ar gyfer estyn y terfynau amser ar gyfer gosod adroddiadau (adran 17 ac Atodlen 1).

## RHAN 2

### DIWYGIADAU I DDEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

**2 Ffioedd am ddarparu gwasanaethau**

(1) Mae adran 19 o Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (5)(a), ar ôl "Archwilydd Cyffredinol neu SAC" mewnosoder "(heblaw codi arian trwy godi ffioedd)".

(3) Ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

> "(6A) Caiff SAC godi ffi mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer o dan yr adran hon."

(4) Hepgorer is-adran (8).

**3 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd**

(1) Mae adran 23 o Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3), hepgorer paragraff (d).

(3) Yn is-adran (5), yn lle paragraff (b) rhodder—

> "(b) caniateir iddynt gael eu hagregu au codi ar sail cyfwerthedd eang (gweler is-adran (6))".

(4) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

> "(6) Yn y Ddeddf hon, ystyr cyfwerthedd eang yw bod yn rhaid i SAC geisio sicrhau bod swm y ffioedd a godir o dan yr adran hon am unrhyw swyddogaethau a arferir mewn perthynas â pherson o dan y deddfiadau a grybwyllir yn adran 24(2)(a), o'u cymryd gydai gilydd a chymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras iw holl wariant y gellir ei briodoli ir person hwnnw mewn cysylltiad âr swyddogaethau hynny."

**4 Cynllun ar gyfer codi ffioedd**

(1) Mae adran 24 o Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)(a), ar y diwedd mewnosoder "ac na chaniateir ei chodi ond yn unol âr cynllun hwn".

**5 Cyflogaeth etc cyn-Archwilydd Cyffredinol a thalu cydnabyddiaeth**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 5(3)—

(a) ym mharagraff (a), ar y diwedd mewnosoder "(os oes swyddi felly)";

(b) ym mharagraff (b), ar y diwedd mewnosoder "(os oes cytundebau a threfniadau felly)";

(3) Yn adran 7(3)(b) hepgorer "o dro i dro".

**6 Gofynion ymgynghori**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 7, hepgorer is-adran (2).

(3) Yn adran 28, ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori âr personau (os oes rhai) y mae o'r farn eu bod yn briodol cyn arfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas âr Archwilydd Cyffredinol neu SAC."

(4) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 5, hepgorer is-baragraff (2);

(b) ym mharagraff 7, hepgorer is-baragraff (2);

(c) hepgorer paragraff 9;

(d) ym mharagraff 12, hepgorer is-baragraff (2).

**7 Penodi Aelodau anweithredol SAC**

(1) Mae paragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) Rhaid i benodiadau a wneir o dan is-baragraff (1) fod am gyfnod o ddim mwy na 4 blynedd.

(3) Ni chaniateir penodi person o dan is-baragraff (1) fwy na dwywaith.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol estyn penodiad a wneir o dan is-baragraff (1) am gyfnod o ddim mwy na 4 blynedd.

(5) Ond ni chaniateir i'r Cynulliad Cenedlaethol estyn penodiad o dan is-baragraff (4) os ywr aelod anweithredol hwnnw—

(a) wedii benodi o dan is-baragraff (1) fwy nag unwaith, neu

(b) wedi cael estyniad i'w benodiad o dan is-baragraff (4) or blaen.

(6) Ni chaniateir i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud nac estyn penodiad a wneir o dan is-baragraff (1) neu (4) os byddai hynnyn arwain at berson yn gwasanaethu am fwy nag 8 mlynedd."

**8 Penodi cadeirydd SAC**

(1) Mae paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-baragraff (3) a (4) rhodder—

"(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol estyn penodiad o dan y paragraff hwn.

(4) Ni chaniateir ir cyfnod penodi o dan y paragraff hwn (gan gynnwys unrhyw estyniad iddo) fod yn fwy nar cyfnod syn weddill yn y swydd fel aelod anweithredol."

**9 Cyfnod penodi ac ailbenodi**

Yn Atodlen 1 i Ddeddf 2013, hepgorer paragraff 6.

**10 Trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer SAC**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 7 o Atodlen 1—

(a) yn is-baragraff (1), hepgorer "(yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraff 9)";

(b) yn is-baragraff (6)(b), hepgorer "o dro i dro";

(c) ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—

"(8) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio trefniadau talu cydnabyddiaeth a wneir o dan y paragraff hwn."

(3) Yn is-baragraff 17(2)(b) o Atodlen 1, hepgorer "o dro i dro".

(4) Yn is-baragraff 11(b) o Atodlen 2, hepgorer "o dro i dro".

**11 Telerau penodi**

(1) Mae paragraff 8 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1), hepgorer "(yn ddarostyngedig i baragraff 9)".

(3) Ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

"(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio telerau penodi a bennir o dan y paragraff hwn."

**12 Dod â phenodiadau i ben**

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 10(3), yn lle "cael ei dderbyn" rhodder "dod i law".

(3) Ym mharagraff 12(3)(b), hepgorer "anfodlon cyflawni swyddogaethau bod yn gadeirydd SAC" a mewnosoder "methu â chyflawni swyddogaethau bod yn gadeirydd SAC, yn anaddas i'w cyflawni, neu'n anfodlon eu cyflawni".

**13 Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC**

(1) Mae paragraff 28 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-baragraff (3), mewnosoder—

"(4) Caiff y rheolau ddarparu, os nad yw mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol, y caiff y cadeirydd ofyn i'r aelodau sy'n gyflogeion enwebu aelod sy'n gyflogai a fydd yn ymgymryd â rôl arsylwr am weddill cyfarfod neu hyd nes bod y cworwm yn cael ei adfer pan fydd aelod anweithredol ychwanegol yn cyrraedd."

**14 Cyfrifon SAC ac Archwilwyr SAC**

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff 33(6), hepgorer "o bryd i'w gilydd".

(3) Ym mharagraff 34, yn lle is-baragraff (1) a (2) rhodder—

"(1) Rhaid i SAC benodi person yn archwilydd cyfrifon SAC."

(2) Mae cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn ofynnol ar gyfer—

(a) penodi person yn archwilydd,

(b) telerau penodi'r archwilydd, ac

(c) y dull o gaffael archwilydd gan SAC."

**15 Gosod adroddiadau etc. gerbron y Cynulliad Cenedlaethol**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 35(2)(b) o Atodlen 1, ar ôl "adroddiad arno" mewnosoder "a'r adroddiad blynyddol a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 2".

(3) Ym mharagraff 3(6) o Atodlen 2, yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) darparur adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bon ymarferol ir archwilydd a benodir o dan baragraff 34 o Atodlen 1 a beth bynnag heb fod yn hwyrach na 5 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y maer adroddiad blynyddol yn ymwneud â hi;"

**16 Adroddiadau interim**

(1) Mae paragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (3), yn lle "O leiaf unwaith yn ystod pob blwyddyn ariannol" rhodder "Os gofynnir amdano gan y Cynulliad Cenedlaethol ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn ariannol".

(3) Hepgorer is-baragraff (5).

(4) Yn is-adran (6)(b), ar ôl "gosod" mewnosoder "unrhyw".

(5) Yn is-baragraff (6)(b), hepgorer "o bryd iw gilydd".

## RHAN 3

## CYFFREDINOL

### 17 Terfynau amser ar gyfer gosod cyfrifon ardystiedig

Mae Atodlen 1 yn gwneud diwygiadau ir ddeddfwriaeth bresennol syn ymwneud â gosod cyfrifon ardystiedig ac adroddiadau.

### 18 Diwygiadau canlyniadol

Mae Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.

### 19 Trefniadau trosiannol

(1) Mae Atodlen 3 yn gwneud trefniadau trosiannol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed sy'n briodol yn eu barn hwy mewn cysylltiad â chychwyn y Ddeddf hon.

(3) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(4) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Nid oes dim yn Atodlen 3 yn cyfyngu ar y pŵer a roddir gan is-adran (2); a chaiff gorchymyn o'r fath, ymysg pethau eraill, wneud addasiadau i'r Atodlen honno.

### 20 Teitl byr a dod i rym

(1) Dawr Ddeddf hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o [ddau fis] gan ddechrau âr diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) 20[ ].

## ATODLEN 1
*(a gyflwynir gan adran 17)*

## TERFYNAU AMSER AR GYFER GOSOD AC ADRODD AR Y CYFRIFON

*Comisiynydd Plant Cymru*

1 Mae paragraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

2 Ar ddechrau is-baragraff (2)(b), mewnosoder "(subject to sub-paragraph (2A))".

3 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(2A) The Auditor General for Wales may lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly after the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to meet that deadline.

(2B) Where sub-paragraph (2A) applies, the Auditor General for Wales must—

(a) before the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b), lay before the Assembly a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Cyngor y Gweithlu Addysg*

4 Mae paragraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

5 Ar ddechrau is-baragraff (4)(b), mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is-baragraff (4A))".

6 Ar ôl is-baragraff (4), mewnosoder—

"(4A) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron y Cynulliad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (4)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(4B) Pan fo is-baragraff (4A) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (4)(b), osod gerbron y Cynulliad ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron y Cynulliad cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Estyn*

7 Mae paragraff 6 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

8 Ar ddechrau is-baragraff (2)(b), mewnosoder "(subject to sub-paragraph (2A))".

9 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(2A) The Auditor General for Wales may lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly after the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to meet that deadline.

(2B) Where sub-paragraph (2A) applies, the Auditor General for Wales must—

(a) before the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b), lay before the Assembly a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Comisiynydd Cenedlaethaur Dyfodol*

10 Mae paragraff 21 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethaur Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

11 Ar ddechrau is-baragraff (2)(b), mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is-baragraff (2A))".

12 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(2A) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol gadw at y terfyn amser hwnnw.

(2B) Pan fo is-baragraff (2A) yn gymwys, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b), osod gerbron y Cynulliad ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG*

13 Mae adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

14 Ar ddechrau is-adran (2)(b), mewnosoder "(subject to subsection (2A))".

15 Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) The Auditor General for Wales may lay a copy of the certified accounts and report before the National Assembly for Wales after the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to meet that deadline.

(2B) Where subsection (2A) applies, the Auditor General for Wales must—

(a) before the four-month deadline mentioned in subsection (2)(b), lay before the National Assembly for Wales a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report before the National Assembly for Wales before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the National Assembly for Wales as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru*

16 Mae adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

17 Ar ddechrau is-adran (4)(b), mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is–adran (4A))".

18 Ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(4A) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (4)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(4B) Pan fo is-adran (4A) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-adran (4)(b), osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

19 Mae adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

20 Ar ddechrau is-adran (5)(b), mewnosoder "(subject to sub-section (5A))".

21 Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) The Auditor General may lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly after the four-month deadline mentioned in subsection (5)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General to meet that deadline.

(5B) Where subsection (5A) applies, the Auditor General must—

(a) before the four-month deadline mentioned in subsection (5)(b), lay before the Assembly a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General to lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Cyfoeth Naturiol Cymru*

22 Mae paragraff 23 o Atodlen 1 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (OS 2012/1903 (Cy. 230)) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

23 Ar ddechrau is-baragraff (5)(c), mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is–baragraff (6))".

24 Ar ôl is-baragraff (5), mewnosoder—

"(6) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (5)(c) pan na fo'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(7) Pan fo is-baragraff (6) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-adran (5)(c), osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Y Comisiynydd Pobl Hŷn*

25 Mae paragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (p.30) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

26 Ar ddechrau is-baragraff (2)(b), mewnosoder "(subject to sub-paragraph (2A))".

27 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(2A) The Auditor General for Wales may lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly after the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to meet that deadline.

(2B) Where sub-paragraph (2A) applies, the Auditor General for Wales must—

(a) before the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b), lay before the Assembly a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Cymwysterau Cymru*

28 Mae paragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Cymwysterau (Cymru) 2015 (dccc 5) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

29 Ar ddechrau is-baragraff (2)(b), mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is–baragraff (3))".

30 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(3) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol gadw at y terfyn amser hwnnw.

(4) Pan fo is-baragraff (3) yn gymwys, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b), osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Gofal Cymdeithasol Cymru*

31 Mae paragraff 16 o Atodlen 2 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

32 Ar ddechrau is-baragraff (4)(b), mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is–baragraff (5))".

33 Ar ôl is-baragraff (4), mewnosoder—

"(5) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (4)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(6) Pan fo is-baragraff (5) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (4)(b), osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Cronfa Gyfunol Cymru*

34 Mae adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

35 Ar ddechrau is-adran (5)(b), mewnosoder "(subject to sub-section (5A))".

36 Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) The Auditor General may lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly after the four-month deadline mentioned in subsection (5)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General to meet that deadline.

(5B) Where subsection (5A) applies, the Auditor General must—

(a) before the four-month deadline mentioned in subsection (5)(b), lay before the Assembly a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General to lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Comisiynydd y Gymraeg*

37 Mae paragraff 19 o Atodlen 1 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (dccc 1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

38 Ar ddechrau is-baragraff (2)(b), mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is-baragraff (2A))".

39 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(2A) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(2B) Pan fo is-baragraff (2A) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b), osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Gweinidogion Cymru*

40 Mae adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

41 Ar ddechrau is-adran (6)(b), mewnosoder "(subject to subsection (6A))".

42 Ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

"(6A) The Auditor General may lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly after the four-month deadline mentioned in subsection (6)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General to meet that deadline.

(6B) Where subsection (6A) applies, the Auditor General must—

(a) before the four-month deadline mentioned in subsection (6)(b), lay before the Assembly a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General to lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Awdurdod Cyllid Cymru*

43 Mae adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

44 Ar ddechrau is-adran (2)(b), mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is-adran (2A))".

45 Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon a'r Datganiad Treth ardystiedig a'r adroddiadau arnynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-adran (2)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(2B) Pan fo is-adran (2A) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-adran (2)(b), osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon a'r Datganiad Treth ardystiedig a'r adroddiadau arnynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon a'r Datganiad Treth ardystiedig a'r adroddiadau arnynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Cyfrif Llywodraeth Cymru Gyfan*

46 Mae adran 142 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

47 Ar ddechrau is-adran (2)(b), mewnosoder "(subject to subsection (2A))".

48 Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) The Auditor General may lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly after the four-month deadline mentioned in subsection (2)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General to meet that deadline.

(2B) Where subsection (2A) applies, the Auditor General must—

(a) before the four-month deadline mentioned in subsection (2)(b), lay before the Assembly a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General to lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the Assembly as soon as reasonably practicable after that deadline."

## ATODLEN 2
*(a gyflwynir gan adran 18)*

## DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf Addysg 1997 (p. 44)*

1 Yn is-adran (6) o adran 41A o Ddeddf Addysg 1997, hepgorer y geiriau o "(which" hyd ddiwedd yr is-adran honno.

*Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)*

2 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

3 Yn adran 145C(3), hepgorer y geiriau "(which may not exceed the full cost incurred in undertaking the programme),".

4 Yn adran 145D, hepgorer is-adran (2A).

*Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23)*

5 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

6 Yn adran 20, hepgorer is-adran (5A).

7 Yn is-adran 45(8), hepgorer y geiriau o "(but" hyd ddiwedd yr is-adran honno.

8 Yn adran 64F, hepgorer is-adran (10).

9 Yn adran 67A, hepgorer is-adran (3).

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)*

10 Yn adran 144(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, hepgorer paragraff (g).

*Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (dccc 2)*

11 Yn adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, hepgorer is-adran (4A).

*Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20)*

12 Yn is-adran (4A) o adran 50 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009, hepgorer y geiriau o "But" hyd ddiwedd yr is-adran honno.

## ATODLEN 3
*(a gyflwynir gan adran 19)*

## TREFNIADAU TROSIANNOL

*Ffioedd am ddarparu gwasanaethau*

1 (1) Maer paragraff hwn yn gymwys pan wneir trefniadau rhwng SAC ac awdurdod perthnasol o dan adran 19 o Ddeddf 2013 yn union cyn i adran 2 (ffioedd am ddarparu gwasanaethau) ddod i rym.

(2) Mae trefniant a wneir rhwng SAC ac awdurdod perthnasol yn effeithiol hyd nes bod y trefniant yn dod i ben (oni ddaw'r trefniant i ben yn gynnar).

(3) Mae Deddf 2013 yn gymwys gydar addasiadau a ganlyn mewn perthynas â threfniant sy'n parhau yn rhinwedd is-baragraff (2)—

(a) mae adran 19 o Ddeddf 2013 yn cael effaith fel pe na bai wedi cael ei diwygio gan y Ddeddf hon, a

(b) mae adrannau 23 a 24 o Ddeddf 2013 yn cael effaith fel pe na baent wedi cael eu diwygio gan y Ddeddf hon.

*Cynllun ar gyfer codi ffioedd*

2 (1) Maer paragraff hwn yn gymwys pan fo cynllun ar gyfer codi ffioedd o dan adran 24 o Ddeddf 2013 yn cael effaith yn union cyn i adran 4 (cynllun ar gyfer codi ffioedd) ddod i rym.'

(2) Mae cynllun yn parhau i gael effaith hyd nes bod cynllun newydd yn dod i rym.

(3) Mae Deddf 2013 yn gymwys gydar addasiadau a ganlyn mewn perthynas â chynllun sy'n parhau yn rhinwedd is-baragraff (2)—

(a) mae adran 24 o Ddeddf 2013 yn cael effaith fel pe na bai wedi cael ei diwygio gan y Ddeddf hon, a

(b) mae adrannau 19 a 23 o Ddeddf 2013 yn cael effaith fel pe na baent wedi cael eu diwygio gan y Ddeddf hon.

*Archwilwyr SAC*

3 (1) Maer paragraff hwn yn gymwys pan fo penodiad person yn archwilydd mewn perthynas â chyfrifon SAC yn cael effaith o dan baragraff 34 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn union cyn i adran 14 (cyfrifon SAC ac archwilwyr SAC) ddod i rym.

(2) Mae penodiad person yn archwilydd SAC yn parhau i gael effaith tan ddiwedd y cyfnod y penodwyd y person ar ei gyfer (oni ddaw'r penodiad i ben yn gynnar).

**Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft**

**Nodiadau Esboniadol**

**CYFLWYNIAD**

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) 2020 [Drafft] a gafodd ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [ ] ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar [ ]. Fe'u lluniwyd er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni.

Defnyddir y termau a'r byrfoddau a ganlyn yn y Nodiadau Esboniadol –

**Deddf 2013** – Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**Y Cynulliad Cenedlaethol** – Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**ACC** – Archwilydd Cyffredinol Cymru

**SAC** – Swyddfa Archwilio Cymru

| **RHAN 1 CYFLWYNIAD** |
|---|
| **Adran 1 – Trosolwg** |
| Mae'r Ddeddf yn cynnwys 20 adran a thair Atodlen. Fel y nodir yn adran 1 (na fwriedir iddi gael unrhyw effaith gyfreithiol), mae'r darpariaethau –<br>• yn dileu'r gwaharddiad ar SAC o ran codi ffioedd sy'n fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi;<br>• yn ei gwneud yn ofynnol i SAC gynnwys darpariaeth mewn cynllun ffioedd sy'n ceisio sicrhau bod swm y ffioedd a godir ar bob person am waith a wneir o dan ddeddfiadau penodedig, o'u cymryd gyda'i gilydd a chymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras i'w holl wariant mewn cysylltiad â'r person hwnnw am y gwaith hwnnw (adrannau 3 a 4);<br>• yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr o swyddi, cytundebau a threfniadau eraill y mae angen ymgynghori arnynt cyn i gyn-Archwilydd Cyffredinol eu cychwyn* neu ymrwymo iddynt, dim ond pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol wedi nodi unrhyw swydd, unrhyw gytundeb neu unrhyw drefniant;<br>• yn dileu neu'n diwygio gofynion ymgynghori mewn perthynas â phenodi'r Archwilydd Cyffredinol ac aelodau SAC (gan gynnwys y cadeirydd) ac yn ychwanegu disgresiwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â phersonau y mae o'r farn eu bod yn briodol cyn arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol neu SAC;<br>• yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi aelodau SAC (gan gynnwys y cadeirydd), eu hailbenodi a dod â'u penodiad i ben, yn ogystal â thalu cydnabyddiaeth iddynt a'u telerau penodi;<br>• yn diwygio'r gofynion cworwm mewn perthynas â chyfarfodydd SAC;<br>• yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi archwilwyr SAC fel ei bod yn ofynnol i SAC, yn hytrach na'r Cynulliad Cenedlaethol, benodi ei harchwilwyr; |

- yn cydgysylltu’r gwaith o osod yr adroddiad blynyddol ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC â’r gwaith o osod cyfrifon archwiliedig SAC;
- yn dileu'r gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC baratoi a gosod adroddiadau interim ar y cyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar arfer eu swyddogaethau; ac
- yn gwneud darpariaeth ar gyfer estyn y terfynau amser ar gyfer gosod adroddiadau.

**RHAN 2 DIWYGIADAU I DDEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013**

**Adran 2 – Ffioedd am ddarparu gwasanaethau**

Mae’r adran hon yn diwygio adran 19 o Ddeddf 2013.

Mae is-adran (2) yn diwygio adran 19(5)(a) o Ddeddf 2013 i egluro nad yw'r potensial i godi arian yn cael ei ystyried ynddo'i hun fel bod yn hwyluso’r gwaith o arfer swyddogaethau ACC neu SAC, nac yn ffafriol i hyn.

Mae is-adran (3) yn galluogi SAC i barhau i godi ffioedd am ddarparu gwasanaethau neu swyddogaethau sy’n cael eu harfer drwy gytundeb o dan adran 19 o Ddeddf 2013. Gan fod adran 3 (gweler isod) yn dileu codi ffioedd am waith o dan adran 19 o Ddeddf 2013, mae is-adran (3) yn ddarpariaeth ddisodli angenrheidiol ar gyfer codi ffioedd.

Mae is-adran (4) yn rhyddhau SAC rhag y rhwymedigaeth i bennu ffioedd am waith o'r fath yn unol â chynllun ffioedd (a baratoir o dan adran 24 o Ddeddf 2013).

**Adran 3 – Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd**

Mae'r adran hon yn dileu'r gwaharddiad ar ffioedd a godir o dan y deddfiadau hynny a restrir yn adran 23(3) o Ddeddf 2013 rhag bod yn fwy na chost lawn y swyddogaeth y maent yn ymwneud â hi ac yn ei disodli gyda'r cysyniad o “gyfwerthedd eang”.

Mae is-adran (2) yn diddymu'r pŵer i godi ffioedd am waith o dan adran 19 o Ddeddf 2013 o adran 23 o Ddeddf 2013. Fel yr eglurwyd uchod, mae adran 2 o’r Ddeddf yn disodli'r ddarpariaeth hon â phŵer cyfwerth yn adran 19 o Ddeddf 2013. Effaith net y newidiadau hyn sy’n ymwneud â ffioedd a godir o dan adran 19 o Ddeddf 2013 yw y gellir eu pennu ar lefel uwchlaw'r gwariant cysylltiedig.

Mae is-adran (3) yn cyflwyno'r sylfaen “cyfwerthedd eang” a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo ffioedd ac mae is-adran (4) yn darparu ar gyfer mewnosod diffiniad o “gyfwerthedd eang” yn Neddf 2013. Mae cyfwerthedd bras yn golygu bod yn rhaid i SAC geisio sicrhau bod swm y ffioedd a godir ar unrhyw berson am yr holl waith a wneir o dan y deddfiadau a restrir yn adran 24(1) o Ddeddf 2013, o’u cymryd gyda'i gilydd a chymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras i'w

holl wariant mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw y gellir ei briodoli i'r person hwnnw.

**Adran 4 – Cynllun ar gyfer codi ffioedd**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 24 o Ddeddf 2013. Mae'r diwygiadau'n angenrheidiol i adlewyrchu'r newidiadau i ffioedd a wneir gan adrannau 2 a 3.

Mae is-adran (2) yn adlewyrchu, yn dilyn y diwygiadau a wneir gan adrannau 2 a 3, nad yw ffioedd am waith o dan adran 19 o Ddeddf 2013 yn ddarostyngedig i'r gofyniad nad yw ffioedd yn fwy na chost a gofynion y cynllun ffioedd a baratoir o dan adran 24 o Ddeddf 2013.

**Adran 5 – Cyflogi etc cyn-Archwilydd Cyffredinol a thalu cydnabyddiaeth**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 5 o Ddeddf 2013 mewn perthynas â'r rhwymedigaeth orfodol i gyhoeddi rhestr o swyddi, cytundebau a threfniadau a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 5(2) o Ddeddf 2013, ac i ddileu geiriad newidiadwy.

Mae adran 5(3) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr o swyddi, cytundebau a threfniadau y mae'n rhaid i gyn-Archwilydd Cyffredinol ymgynghori ag unrhyw berson a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â hwy cyn eu cychwyn* neu ymrwymo iddynt, yn ôl fel y digwydd. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddisgresiwn wrth ystyried a ddylid pennu swydd, cytundeb neu drefniant ac felly gall fod yn wir nad oes swyddi, cytundebau a threfniadau penodol o'r fath. Mae is-adran (2) yn mewnosod geiriad yn adran 5(3)(a) a (b) o Ddeddf 2013 er mwyn egluro bod yn rhaid cyhoeddi rhestr pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pennu swydd, cytundeb neu drefniant. Yr effaith yw nad yw'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr os nad yw wedi pennu swydd, cytundeb neu drefniant at ddibenion adran 5 (2) o Ddeddf 2013.

Mae is-adran (3) yn dileu cyfeiriad newidiadwy nad yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol.

**Adran 6 – Gofynion ymgynghori**

Mae'r adran hon yn gwneud amryw ddiwygiadau mewn perthynas â gofynion ymgynghori o dan Ddeddf 2013.

Mae is-adrannau (2), (4)(a), (4)(b) a (4)(d) yn dileu rhwymedigaethau ar y Cynulliad Cenedlaethol i ymgynghori â'r Prif Weinidog cyn:

- gwneud trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer ACC;
- penodi cadeirydd SAC;
- gwneud trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer cadeirydd SAC; a
- dod â phenodiad cadeirydd SAC i ben.

Mae'r diwygiadau hyn yn ceisio cryfhau annibyniaeth ACC a SAC.

Mae is-adrannau (3) a (4)(c) yn disodli gofyniad i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â “pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros ar benodiadau cyhoeddus” cyn penderfynu ar delerau ac amodau, gan gynnwys talu cydnabyddiaeth i aelodau anweithredol SAC, gyda darpariaeth yn cadarnhau y caiff y Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae o’r farn eu bod yn briodol wrth arfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas ag ACC neu SAC.

**Adrannau 7 i 12 – Penodiadau i fwrdd SAC**

Mae'r adrannau hyn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 sy'n ymwneud â phenodi aelodau anweithredol SAC.

Mae adran 7 yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013. Mae'n darparu y caiff y Cynulliad Cenedlaethol estyn penodiad aelod anweithredol sy'n gwasanaethu am hyd at un tymor pellach, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad presennol (a gynhwyswyd gynt ym mharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013) na chaniateir i’r un person wasanaethu am fwy nag uchafswm o wyth mlynedd fel aelod anweithredol. Mae'r gofyniad bod yn rhaid i benodiad aelod anweithredol fod yn seiliedig ar gystadleuaeth deg ac agored wedi cael ei ddileu o baragraff 4. Mae hyn yn caniatáu estyn y penodiad heb fod angen cynnal cystadleuaeth deg ac agored cyn penderfynu a ddylid estyn penodiad aelod anweithredol.

Mae adran 8 yn egluro, os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn estyn penodiad y cadeirydd, na chaniateir i gyfnod yr estyniad fod yn fwy na’r cyfnod sy’n weddill gan y cadeirydd fel aelod anweithredol o'r Bwrdd.

Mae adran 9 yn hepgor paragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013, y mae ei ddarpariaethau wedi'u hailddeddfu'n sylweddol ym mharagraff 4 diwygiedig o Atodlen 1 i Ddeddf 2013.

Mae adrannau 10 ac 11 yn diwygio paragraffau 10 ac 11 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013. Mae is-adran (2)(a) yn dileu cyfeiriad at ddarpariaethau diangen sydd wedi'u dileu gan y Ddeddf. Mae is-adrannau 2(b), (3) a (4) yn dileu cyfeiriadau newidiadwy nad ydynt yn cael eu hystyried yn angenrheidiol. Mae is-adran 2(c) yn darparu y caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio'r trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau anweithredol (sy'n cynnwys y cadeirydd). Mae hyn yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu trefniadau o'r fath mewn amgylchiadau lle gall benderfynu estyn y penodiadau hynny yn unol â pharagraffau 4 a 5 diwygiedig o Atodlen 1 i Ddeddf 2013.

Mae adran 12 yn gwneud diwygiadau i derfynu darpariaethau penodi a gynhwysir ym mharagraffau 10 a 12 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013. Mae is-adran (2) yn darparu bod ymddiswyddiad yn dod i rym pan ddaw i law. Mae is-adran (3) yn darparu bod yr amgylchiadau pan gaiff y Cynulliad Cenedlaethol derfynu penodiad cadeirydd SAC yn cynnwys pan fo'r cadeirydd yn methu â chyflawni swyddogaethau'r swydd honno, neu’n anaddas i’w cyflawni, yn ogystal â phan

fo'r cadeirydd wedi methu â chydymffurfio â thelerau penodi neu fel arall yn anfodlon parhau.

**Adran 13 – Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC**

Mae adran 13 yn addasu paragraff 28 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 er mwyn darparu ar gyfer y posibilrwydd o reolau sy'n caniatáu i'r cadeirydd ofyn i'r aelodau sy'n gyflogeion enwebu aelod sy'n gyflogai i ymgymryd â rôl arsylwr os nad aelodau anweithredol yw mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod SAC. Effaith y ddarpariaeth hon yw darparu ar gyfer dull sy'n caniatáu i gyfarfod SAC barhau os nad oes gan y cyfarfod hwnnw gworwm fel arall oherwydd nad oes mwyafrif o aelodau anweithredol, fel sy'n ofynnol gan baragraff 28(3) o Atodlen 1 i Ddeddf 2013. Effaith y ddarpariaeth hefyd yw nad yw'n ofynnol i aelod sy'n gyflogai adael cyfarfod SAC fel bod gan y cyfarfod gworwm.

**Adran 14 – Cyfrifon SAC ac archwilwyr SAC**

Mae adran 14 yn diwygio paragraffau 33 a 34 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013. Mae is-adran (2) yn dileu cyfeiriad newidiadwy nad yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol. Mae is-adrannau (3) a (4) yn ei gwneud yn ofynnol i SAC benodi person yn archwilydd ar gyfer ei gyfrifon yn lle ei bod yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud hynny, ond mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i oruchwylio a chraffu ar yr archwilydd oherwydd ei bod yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r penodiad, y telerau penodi cysylltiedig a'r dull o gaffael yr archwilydd.

**Adran 15 – Gosod adroddiadau etc gerbron y Cynulliad Cenedlaethol**

Mae adran 15 yn diwygio darpariaethau Deddf 2013 mewn perthynas â gosod adroddiadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae is-adran (2) yn diwygio paragraff 35 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 fel bod yn rhaid i archwilydd SAC osod yr adroddiad blynyddol, a ddarperir gan ACC a chadeirydd SAC yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar yr un pryd â gosod y datganiad o gyfrifon ac unrhyw adroddiad.

Mae is-adran (3) yn diwygio paragraff 3(6) o Atodlen 2 i Ddeddf 2013, i'w gwneud yn ofynnol i ACC a chadeirydd SAC ddarparu adroddiad blynyddol SAC, cyn gynted ag sy'n ymarferol, i'r archwilydd a benodir o dan baragraff 34 o Atodlen 1 i Deddf 2013 a beth bynnag yw'r sefyllfa heb fod yn hwyrach na 5 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad blynyddol yn ymwneud â hi. Effaith y ddarpariaeth hon yw osgoi rhwymedigaethau gosod dyblyg.

| **Adran 16 – Adroddiadau interim** |
|---|
| Mae adran 16 yn diwygio'r gofynion i ACC a chadeirydd SAC baratoi adroddiadau interim ar y cyd ynghylch arfer swyddogaethau o leiaf unwaith yn ystod pob blwyddyn ariannol i fod yn ofyniad i baratoi adroddiadau o'r fath dim ond pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn iddynt wneud hynny. |
| **RHAN 3 CYFFREDINOL** |
| **Adran 17 – Terfynau amser ar gyfer gosod cyfrifon ardystiedig** |
| Mae adran 17 yn rhoi effaith i Atodlen 1 (terfynau amser ar gyfer gosod ac adrodd ar y cyfrifon), sy'n pennu diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â gosod cyfrifon ardystiedig ac adroddiadau. |
| **Adran 18 – Diwygiadau canlyniadol** |
| Mae adran 18 yn rhoi effaith i Atodlen 2 (diwygiadau canlyniadol), sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol. |
| **Adran 19 – Trefniadau trosiannol** |
| Mae adran 19(1) yn rhoi effaith i Atodlen 3 (trefniadau trosiannol), sy'n nodi'r prif ddarpariaethau trosiannol.<br><br>Mae adran 33(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed pellach sy'n briodol yn eu barn hwy mewn cysylltiad â chychwyn y Ddeddf. |
| **Adran 20 – Teitl byr a dod i rym** |
| Mae adran 20 yn darparu i holl ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym [ddau fis] ar ôl y diwrnod y bydd y Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Mae hefyd yn darparu mai teitl byr y Ddeddf yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) Cymru 20[ ]. |
| **ATODLEN 1 – TERFYNAU AMSER AR GYFER GOSOD AC ADRODD AR Y CYFRIFON** |
| Mae'r Atodlen hon yn nodi diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n cynnwys terfynau amser ar gyfer gosod cyfrifon gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mewn perthynas ag Awdurdod Cyllid Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i'r Datganiad Treth yn ychwanegol at y cyfrifon ardystiedig a'r adroddiadau. Ym mhob achos, caiff ACC osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl y terfyn amser a bennir o dan y ddeddfwriaeth berthnasol lle nad yw'n rhesymol ymarferol i ACC gadw at y terfyn amser penodedig. Pan fydd |

ACC yn ceisio dibynnu ar y ddarpariaeth honno ac yn gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad ar ôl y terfyn amser penodedig, rhaid i ACC osod datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn egluro pam nad yw'n rhesymol ymarferol i ACC osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad cyn y terfyn amser penodedig. Rhaid i ACC osod copi o’r cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw.

Effaith y darpariaethau hyn yw darparu hyblygrwydd os torrir y gofynion statudol caeth er mwyn i ACC gydymffurfio â safonau proffesiynol archwilio (h.y. mewn amgylchiadau pan ddylid rhoi cyfle i'r corff perthnasol sy’n cael ei archwilio wneud sylwadau ar ganfyddiadau'r archwiliad cyn ei gyhoeddi).

Caiff diwygiadau eu gwneud mewn perthynas â Chronfa Gyfunol Cymru a chyfrif Llywodraeth Cymru gyfan, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer gosod yn achos y cyrff archwiliedig canlynol–

- Comisiynydd Plant Cymru;
- Cyngor y Gweithlu Addysg;
- Estyn;
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru;
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaethau’r GIG;
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru;
- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn;
- Cymwysterau Cymru;
- Gofal Cymdeithasol Cymru;
- Comisiynydd y Gymraeg;
- Gweinidogion Cymru; ac
- Awdurdod Cyllid Cymru.

**ATODLEN 2 – DIWYGIADAU CANLYNIADOL**

Mae'r Atodlen hon yn nodi'r diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol i roi'r Ddeddf ar waith. Mae'r diwygiadau hynny'n ymwneud ag amryw bwerau codi ffioedd sydd i'w cael mewn deddfiadau heblaw adran 23(b) o Ddeddf 2013 a gwaharddiadau cysylltiedig ar ffioedd sy'n fwy na chost lawn y swyddogaethau y maent yn ymwneud â hwy. Mae'r diwygiadau yn dileu'r gwaharddiadau hyn yn unol â'r newidiadau i adrannau 23 a 24 o Ddeddf 2013.

Gwneir diwygiadau canlyniadol i’r canlynol–

- Deddf Addysg 1997;
- Deddf Llywodraeth Cymru 1998;
- Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009.

| ATODLEN 3 - TREFNIADAU TROSIANNOL |
| --- |
| **Paragraff 1 - Ffioedd am ddarparu gwasanaethau** |
| Mae paragraff 1 yn golygu, os oes trefniadau ar waith rhwng SAC ac awdurdod perthnasol o dan adran 19 o Ddeddf 2013 ar y dyddiad y daw'r diwygiadau i Ddeddf 2013 i rym, y bydd y trefniadau hynny yn parhau i gael eu llywodraethu gan y darpariaethau sydd mewn grym cyn i'r diwygiadau ddod i rym. |
| **Paragraff 2 – Cynllun ar gyfer codi ffioedd** |
| Mae paragraff 2 yn golygu, os yw cynllun ar gyfer codi ffioedd o dan adran 24 o Ddeddf 2013 yn cael effaith ar y dyddiad y daw'r diwygiadau i Ddeddf 2013 i rym, y bydd y cynllun hwnnw'n parhau nes bydd cynllun newydd yn dod i rym. |
| **Paragraff 3 – Archwilwyr SAC** |
| Mae paragraff 3 yn golygu, pan fydd penodiad person fel archwilydd mewn perthynas â chyfrifon SAC yn cael effaith ar y dyddiad y daw'r diwygiadau i Ddeddf 2013 i rym, y bydd y penodiad hwnnw'n parhau i gael ei lywodraethu gan y darpariaethau sydd mewn grym cyn i'r gwelliannau ddod i rym. |